

CABINET

CYNGOR GWYNEDD

DYDDIAD	Dydd Mawrth, 28ain Mehefin, 2016
AMSER	1.00 y.h.
LLEOLIAD	Siambwr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH
PWYNT CYSWLLT	Sophie Hughes 01286 679729 cabinet@gwynedd.llyw.cymru

AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

Aelodau	
Dyfed Wyn Edwards	Arweinydd
Dyfrig L. Siencyn	Dirprwy Arweinydd
Peredur Jenkins	Aelod Cabinet Adnoddau
John Wynn Jones	Aelod Cabinet Amgylchedd
Dafydd Meurig	Aelod Cabinet Cynllunio a Rheoleiddio
W. Gareth Roberts	Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant
Mair Rowlands	Aelod Cabinet Plant, Pobl Ifanc a Hamdden
Gareth Thomas	Aelod Cabinet Addysg
Ioan Thomas	Aelod Cabinet Tai, Gofal Cwsmer, Llyfrgelloedd, Amddifadedd a Chydraddoldeb
Mandy Williams-Davies	Aelod Cabinet Economi a Chymuned

RHAGLEN

	Eitem	Cyflwynir gan	Swyddog	Tud.
1	YMDDIHEURIADAU			
2	DATGAN BUDDIANT PERSONOL			
3	MATERION BRYS			
4	MATERION YN CODI O BWYLLGORAU CRAFFU Argymhellion yn codi o'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau	Cyng/Cllr Dyfrig Siencyn	Gareth James	3 - 4
5	COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 7FED MEHEFIN 2016			5 - 9
6	CYNLLUN CYFLOGAETH LLŶN AC EIFIONYDD	Cyng/Cllr Mandy Williams-Davies	Sioned Williams	10 - 48
7	LÔN LAS OGWEN	Cyng/Cllr Dafydd Meurig	Dafydd Wyn Williams	49 - 52
8	TROSOLWG PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD	Cyng/Cllr Dyfed Edwards	Hawis Jones	53 - 98
9	BLAENRAGLEN WAITH CABINET CYNGOR GWYNEDD	Cyng/Cllr Dyfed Edwards		99 - 100

CYFARFOD CABINET 28 Mehefin 2016

ARGYMHELLION Y PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU

Cyfarfod 28 Ionawr 2016

A. EITEM - STRATEGAETH LLETYA POBL HÛN

<https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/s3521/Eitem%205%20-%20Strategaeth%20Lletya.pdf?LLL=1>

Ystyriwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet Oedolion ac Iechyd ynghyd â strategaeth drafft lletya pobl hÛn

Penderfynwyd:

Gofyn i'r Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant sicrhau bod y materion isod yn cael eu cynnwys o fewn y strategaeth lletya pobl hÛn:

- **Cydnabyddiaeth bod stoc o dai hynafol mewn rhai ardaloedd ac felly yn amhosib darparu gwelyau ysbyty yn y tai oherwydd maint penodedig i wely ysbyty a'r angen i ystyried opsiynau gwahanol yn yr ardaloedd hyn**
- **Bod angen cydnabyddiaeth ariannol ychwanegol ar gyfer rhai ardaloedd i gyfarch y twf mewn nifer o bobl hÛn sydd wedi ymddeol i'r ardaloedd hyn a'r gost o ddarparu gwasanaethau iddynt.**

B. EITEM - ADRODDIAD BLYNYDDOL AGGCC (Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru) 2014-15 – RHAGLEN WAITH

<https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/s3568/Eitem%207%20-%20Rhaglen%20Waith%20-%20Adroddiad%20Gwerthuso%20Perfformiad%20201415%20AGGCC.pdf?LLL=1>

Ystyriwyd Rhaglen Waith a luniwyd mewn ymateb i Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2014/15 yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Penderfynwyd:

- **Derbyn a nodi'r rhaglen waith yn ddarostyngedig i dderbyn amserlen gadarn ar gyfer gweithredu i'w gyflwyno i gyfarfod paratoi'r Pwyllgor Craffu hwn ar 23 Chwefror 2016.**
- **Enwebu'r aelodau canlynol i gynorthwyo'r swyddogion perthnasol a'r Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant I lunio briff ar gyfer y cynllun strategol mewn perthynas â chymorth i ofalwyr:
Y Cynghorydd Linda Ann Wyn Jones
Y Cynghorydd R H Wyn Williams**

Cyfarfod 17 Mawrth 2016

C. EITEM - ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GWASANAETH ADDYSG

<https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/s4201/Adroddiad%20Blynyddol%20Gwasanaeth%20Addysg.pdf?LLL=1>

Ystyriwyd Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Addysg yn amlinellu perfformiad y Gwasanaeth Addysg yn ystod y flwyddyn gan nodi cryfderau a gwendidau y mae'r Gwasanaeth wedi eu hadnabod y mae angen rhoi sylw iddynt.

Penderfynwyd:

- Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad blynyddol.
- Bod yr Ymchwiliad Craffu Gwasanaethau Cefnogol Addysg yn gwneud pwynt penodol i drafod gydag ysgolion yn y categori coch i asesu'r math o gefnogaeth y mae'r ysgolion hynny yn cael gan yr awdurdod, GwE ac eraill.
- Bod yr elfennau Gwasanaethau Cefnogol yn cael sylw gan yr Ymchwiliad Craffu Gwasanaethau Cefnogol Addysg yn hytrach nag yn y Pwyllgor Craffu llawn
- Oherwydd y perygl o oedi mewn adrodd ar berfformiad, gofyn i'r Aelod Cabinet Addysg gyflwyno adroddiad interim yn ôl i'r Pwyllgor Craffu yn yr Hydref i weld beth yw patrwm canlyniadau arholiadau'r haf.
- Bod y Pwyllgor Craffu yn rhoi sylw penodol i Addysg Arbennig yn ei rhaglen waith ar gyfer flwyddyn nesaf gan ystyried ei graffu yn fuan yng nghyfarfod mis Mai.

Cyfarfod 26 Mai 2016

CH. EITEM – POLISI CLUDIANT – ADRAN OEDOLION A LLESIANT

<https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/s5744/Adroddiad%20ar%20Bolis%20Cludiant.pdf?LLL=1>

Ystyriwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet Oedolion ac Iechyd yn amlygu'r angen i'r Cyngor osod polisi a threfniadau cludiant newydd i'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant mewn ymateb i ofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Amlygwyd bod y Ddeddf yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i hybu llesiant ein dinasyddion er mwyn hybu a chefnogi annibyniaeth.

Penderfynwyd:

Gwneud yr argymhellion canlynol i'r Cabinet:

- **Gweithredu Opsiwn 3, sydd yn cydfynd gydag egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, drwy adeiladu ar gryfderau unigolyn ac edrych ar adeiladu ar gryfderau cymunedol.**
- **Sicrhau defnydd priodol a chydlynu trefniadau cludiant Mewnol.**
- **Nodi mwy o fanylion yn yr Adroddiad i'r Cabinet am y broses apêl.**
- **Ystyried yn ofalus yr effaith ar unigolion o safbwynt y gost ac a ellir lliniaru'r effaith.**
- **Gwneud cais i Sir y Fflint amlygu'r gwersi a ddysgwyd/rhwystrau a wynebwyd, fel bod modd eu cynnwys yn yr adroddiad i'r Cabinet**
- **Ystyried trefniadau mewn siroedd eraill sydd â phroffil tebyg i Wynedd.**
- **Rhoi ystyriaeth hafal i bob rhan o Wynedd wledig a threfol o ran hwyluso a chydlynu trefniadau cludiant.**

Y CABINET DYDD MAWRTH, 7 MEHEFIN 2016

Yn bresennol-

Y Cyngorwyr: Dyfrig L. Siencyn (Cadeirydd), Peredur Jenkins, John Wynn Jones, Dafydd Meurig, W. Gareth Roberts, Mair Rowlands, Gareth Thomas a Ioan Thomas

Hefyd yn bresennol-

Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd L. Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan G. Evans (Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol), Gwyn Morris Jones (Pennaeth Prifffyrdd a Bwrdeistrefol), Hawis Jones (Rheolwr Cynllunio Strategol a Pherfformiad), Steffan Jones (Uwch Reolwr Gwastraff a Chomisiynu), William E Jones (Uwch Reolwr Cyllid) a Janet Roberts (Uwch Reolwr Gwasanaeth Cyflawni a Chefnogi Newid)

1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Dyfed Edwards, y Cyng. Mandy Williams-Davies ac Iwan Trefor Jones.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Nid oedd unrhyw fater brys.

4. MATERION YN CODI O BWYLLGORAU CRAFFU

Nid oedd unrhyw fater yn codi o Bwyllgorau Craffu.

5. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHELIR AR 3 MAI 2016

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 3ydd o Fai 2016.

6. CYFRIFON TERFYNOL 2015/16 - ALLDRO REFENIW

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Peredur Jenkins.

PENDERFYNIAD

1. Derbyn a nodi sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2015/16, a chymeradwyo'r sefyllfa er mwyn galluogi'r Adran Cyllid i symud ymlaen i gynhyrchu, ardystio a chyhoeddi'r datganiadau ariannol statudol erbyn 30 Mehefin ac i'w cyflwyno i'w craffu gan y Pwyllgor Archwilio ar 14 Gorffennaf.

2. Cymeradwyo'r symiau i'w cario ymlaen (y golofn "Gor/(Tan) Wariant Addasedig" o'r talfyriad yn Atodiad 1), sef –

ADRAN	£'000
Oedolion, Iechyd a Llesiant	(6)
Plant a Theuluoedd	(8)
Addysg	(48)
Economi a Chymuned	5
Priffyrdd a Bwrdeistrefol	(6)
Rheoleiddio	(90)
Ymgynghoriaeth Gwynedd	34
Tim Rheoli Corfforaethol & Chyfreithiol	(20)
Cyllid	(70)
Cefnogaeth Gorfforaethol	(95)
Cyllidebau Corfforaethol	0

3. Cymeradwyo'r argymhellion a'r trosglwyddiadau ariannol canlynol (amlinellwyd yn Atodiad 2 i'r adroddiad) –

- Yn unol â chais y Pennaeth Adran Oedolion, trosglwyddo cyllidebau o fewn yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant fel y rhestrir yn Atodiad 2, tudalen 18 (effaith net o "£0").
- Neilltuo £150k o'r sefyllfa tanwariant gros yr Adran Rheoleiddio am 2015/16 mewn cronfa ar gyfer datblygu trefn archwilio ac asesu cyflwr pontydd, cwlferei a rhai waliau cynnal.
- Trosglwyddo £150k o'r sefyllfa tanwariant ar Gyllidebau Corfforaethol am 2015/16 i'r gronfa wrth gefn perthnasol i'r Bartneriaeth Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru ar gyfer gofynion 2016/17, gyda'r gweddill sydd ei hangen ar gyfer 2017/18 i'w adnabod wrth ystyried y strategaeth ariannol am y flwyddyn honno.
- Trosglwyddo £769k o danwariant ar Gyllidebau Corfforaethol am 2015/16 i gronfa tuag at ariannu strategaeth ariannol 2016/17.
- Defnyddio £292k o danwariant Cyllidebau Corfforaethol am 2015/16 tuag at ariannu strategaeth ariannol 2015/16.

4. Cymeradwyo'r trosglwyddiadau ariannol o gronfeydd penodol fel yr amlinellir yn Atodiad 3 (ynghyd â'r darpariaethau a ryddhawyd yn dilyn adolygiad).

5. Nodi fod hyn am wneud defnydd o (£833k) o falansau'r Cyngor, yn hytrach na'r (£2.019m) gwreiddiol er mwyn cwblhau'r pecyn i ariannu strategaeth ariannol 2015/16.

7. RHAGLEN GYFALAF 2015/16 - 2017/18

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Peredur Jenkins.

PENDERFYNIAD

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd y flwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2016) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 yr adroddiad, sef:

- lleihad £3,068,000 mewn defnydd o fenthyca heb gefnogaeth
- cynnydd £2,023,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- lleihad £22,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
- cynnydd £80,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
- cynnydd £546,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu

8. DARPARIAETH TOILED AU CYHOEDDUS YNG NGWYNEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. John Wynn Jones.

Eiliwyd yr adroddiad gan y Cyng. W Gareth Roberts.

PENDERFYNIAD

Yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Craffu Cymunedau, addasu'r penderfyniad i wneud toriad o £244,000 yn y gwasanaeth drwy yn gyntaf ymgeisio i sefydlu partneriaethau gyda chymunedau lleol er mwyn osgoi cau'r cyfleusterau tra'n cyflawni'r un swm o doriad.

9. CYNLLUN ADNEWYDDU PIBELLI DŴR STADAU TAI CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. John Wynn Jones.

Eiliwyd yr adroddiad gan y Cyng. Ioan Thomas.

PENDERFYNIAD

I awdurdodi Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol mewn ymgynghoriad â'r Penaethiaid Cyllid a Gwasanaethau Cyfreithiol i gytuno trefn ac amodau cydweithio gyda Chartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) i wireddu Cynllun Rheoli ac Adnewyddu Pibelli Dwr yn Stadau Tai CCG fel amlinellir yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

I ariannu'r gost o hyd at £300k y flwyddyn sydd ei angen ar gyfer y Cynllun Rheoli ac Adnewyddu 10 mlynedd hwn drwy ddefnyddio trosglwyddiadau o'r gronfa o £1.7m o gynfalansau'r Cyfrif Refeniw Tai i'r perwyl ar gyfer y blynyddoedd cychwynnol, a'i ariannu drwy ei gynnwys ar Strategaeth Asedau newydd y Cyngor ar gyfer y blynyddoedd olynol.

10. ADOLYGU'R GWASANAETH CASGLU GWASTRAFF GARDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. John Wynn Jones.

Eiliwyd yr adroddiad gan y Cyng. W Gareth Roberts.

PENDERFYNIAD

I fabwysiadu trefn o godi ffi ar drigolion am gasglu gwastraff gardd o 1 Ionawr, 2017.

I osod ffi o £33 y flwyddyn ar gasglu biniau gwastraff gardd maint 240 litr (neu 5 sach pydradwy) a £28 y flwyddyn ar gyfer bob bin ychwanegol neu ar gyfer biniau maint 140 litr.

11. PROSIECT TRIN GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. John Wynn Jones.

Eiliwyd yr adroddiad gan y Cyng. Gareth Thomas.

PENDERFYNIAD

Cymeradwyo ariannu camau nesaf o'r Prosiect drwy drosglwyddo £150k o'r sefyllfa tanwariant ar Gyllidebau Corfforaethol am 2015/16 i'r gronfa wrth gefn perthnasol ar gyfer gofynion 2016/17, gyda'r gweddill sydd ei hangen ar gyfer 2017/18 i'w adnabod wrth ystyried y strategaeth ariannol am y flwyddyn honno.

12. ARDALOEDD LLESIANT Y BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dafydd Meurig ar ran y Cyng. Dyfed Edwards.

Eiliwyd yr adroddiad gan y Cyng. John Wynn Jones.

PENDERFYNIAD

Argymhell opsiwn 8 ardal ar gyfer creu'r asesiad llesiant drafft i'w ystyried gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei gyfarfod ar 17 Mehefin:

- Y Bala
- Bangor
- Caernarfon
- Dolgellau
- Ffestiniog
- Llŷn
- Porthmadog
- Tywyn

13. TROSOLWG PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD 2015/16

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. W Gareth Roberts ar ran y Cyng. Dyfed Edwards.

Eiliwyr yr adroddiad gan y Cyng. Mair Rowlands.

PENDERFYNIAD

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 3.20 y.h.

CADEIRYDD

Eitem 6

ADRODDIAD I'R CABINET

28 Mehefin 2016

Aelod Cabinet: Y Cyngorydd Mandy Williams-Davies
Aelod Cabinet dros yr Economi a Chymuned

Pwnc: CYNLLUN CYFLOGAETH LLŶN AC EIFIONYDD

Swyddog cyswllt: Dylan Griffiths,
Rheolwr Strategaeth a Datblygu, Economi a Chymuned
dylanrhysgriffiths@gwynedd.llyw.cymru

Y penderfyniad a geisir

Mabwysiadu 'Cynllun Cyflogaeth Llŷn ac Eifionydd' fel sail ar gyfer cyfeirio ymdrechion y Cyngor a'i bartneriaid i gynnal a chreu gwaith yn ardal Dwyfor.

Barn yr aelod lleol

Ddim yn fater sydd yn effeithio unrhyw ward unigol yn benodol ond mae'r Cynllun drafft wedi ei drafod a'i gefnogi gan Fforwm Ardal Dwyfor ar 07 Mawrth 2016.

Cyflwyniad

Sefydlwyd Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd gan y Cyngor yn 2010. Ar sail y penderfyniad hwn, blaenoriaethwyd ymdrechion i greu swyddi newydd yn ardal Meirionnydd rhwng 2010 a 2014.

Yng Nghynllun Strategol 2013 - 2017 y Cyngor ymrwymwyd i sefydlu Cynllun Cyflogaeth i ardal Llŷn ac Eifionydd. Tra fod ymrwymiad i barhau i gefnogi rhaglenni yn Meirionnydd a Môn Menai, byddai paratoi Cynllun Cyflogaeth Llŷn ac Eifionydd yn dadansoddi sefyllfa cyflogaeth yn Nwyfor ac yn sail ar gyfer unrhyw gymorth i'r dyfodol.

Drwy weithio ag Aelodau Fforwm Ardal Dwyfor dros gyfnod o ddeunaw mis lluniwyd Cynllun Cyflogaeth Llŷn ac Eifionydd (Atodiad 1). Cyflwynir prif gasgliadau'r ddogfen i'r Cabinet ac argymhellion ar gyfer rhaglen waith cychwynnol.

Rhesymau dros argymell y penderfyniad

Mewn ymateb i ymrwymiad y Cyngor i sefydlu Cynllun Cyflogaeth i Llŷn ac Eifionydd cynhaliwyd cyfres o weithdai a chyfarfodydd gydag Aelodau o'r Cyngor yn cynrychioli wardiau Dwyfor dros gyfnod o ddeunaw mis. Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd hefyd gyda gwahanol gyflogwyr yn yr ardal.

O ganlyniad, lluniwyd y ddogfen amgaeedig (yn Atodiad 1) gan ddilyn model Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd.

Bwriedir i'r Cynllun ddarparu sail i'r dyfodol gan grynhoi'r prif negeseuon i'r Cyngor a'i bartneriaid wrth gynllunio i gynnal a chreu gwaith yn Nwyfor.

Bydd y Cynllun hefyd yn gymorth i gyflogwyr Llŷn ac Eifionydd ac i'r rhai sydd yn ystyried sefydlu menter yn yr ardal gan ei fod yn crynhoi amgylchiadau'r economi ac yn amlygu meysydd sydd yn cynnig cyfle.

Nid yw'r Cynllun yn ymrwymo adnoddau. Bwriedir i'r Cynllun fod yn fodd o gyfeirio a chydlynu ymdrechion i sicrhau fod ymyraethau yn effeithiol ac yn effeithlon.

Ystyriaethau perthnasol

Mae Gwynedd yn sir fawr ac amrywiol ac mae anghenion gwahanol mewn gwahanol rannau o'r sir. Mae amrywiaeth rhwng yr anghenion a chyfleon gwaith yn ardal Arfon, Dwyfor a Meirionnydd.

Mae'r Cyngor yn gweithio ar y cyd gydag ystod o bartneriaid o fewn y sector cyhoeddus a'r drydedd sector - ynghyd â chyflogwyr a busnesau lleol - wrth ymyrryd i ddatblygu'r economi leol. Yn hyn o beth mae sicrhau fod agenda cytûn gyda chefnogaeth gynhwysfawr yn allweddol.

Mae Cynllun Cyflogaeth Llŷn ac Eifionydd yn cyflwyno darlun cynhwysfawr o Ddwyfor gan grynhoi'r heriau ac amlygu ymatebion bras; yn gryno:

Nod

Cydweithio gyda phartneriaid i adeiladu ar gryfderau Llŷn ac Eifionydd - ei hadnoddau naturiol, cynnyrch, treftadaeth, ei thalentau, ei hunaniaeth a'r iaith Gymraeg - er mwyn cynyddu cyflogaeth, mentergarwch a swyddi gwerth uchel ar draws yr ardal, manteisio ar gyfleoedd i fusnesau lleol dyfu, a chreu'r amodau i bobl ifanc aros neu ddychwelyd i'r ardal i fyw a gweithio

Amcanion

1. Manteisio ar fuddsoddiadau cyfalaf mawr, ac isadeiledd newydd, o fewn yr ardal gan sefydlu a gweithredu glasbrint efo'n partneriaid ar gyfer cynhyrchu gwerth economaidd ychwanegol o ran cyfleoedd i fusnesau, creu swyddi, a chyflogaeth gwerth uchel

2. Annog a chefnogi mentergarwch o fewn yr ardal, yn arbennig o fewn ein pobl ifanc, ac mewn meysydd a sectorau gwerth uchel megis awyr agored, yr amgylchedd, ynni, gwyddonol, technoleg a'r diwydiannau creadigol, gan hefyd gefnogi busnesau'r ardal i fod yn fwy mentrus a chystadleuol
3. Sicrhau sylw penodol i ymateb i heriau cyflogaeth a manteisio ar gyfleoedd ac asedau Ardaloedd Nefyn a Phendraw Llŷn
4. Gwneud y mwyaf o raglenni economaidd a sgilio cenedlaethol, rhanbarthol a sirol gan sicrhau gwyro ymyrraeth i Llŷn ac Eifionydd

Y Gweithlu Posib

Her	Ymateb
Cynnal y boblogaeth oed gwaith	Creu'r amodau i deuluoedd a phobl ifanc aros, neu ddychwelyd i Llŷn ac Eifionydd i fyw a gweithio
Diffyg swyddi i gwrdd â'r galw heddiw ac yn y dyfodol	Sefydlu'r amodau i greu rhagor o swyddi newydd o fewn yr ardal
	Cysylltu pobl oed gwaith gyda swyddi a chyfleoedd newydd o fewn yr ardal, a chanolfannau gwaith cyfagos tu hwnt i'r ardal
Newidiadau yn y drefn Lles	Datblygu sgiliau trigolion yr ardal, er mwyn sicrhau mynediad at swyddi a goresgyn rhwystrau i waith

Swyddi a Strwythur Cyflogaeth

Her	Ymateb
Diffyg presenoldeb sectorau gwerth uchel a swyddi gyda chyflogau da	Sefydlu'r amodau i wreiddio a thyfu sectorau gwerth uchel o fewn yr ardal, yn arbennig y rhai all gynnig amrywiaeth o swyddi newydd a chyflogau da
	Cefnogi busnesau lleol sydd eisoes mewn sectorau gwerth uchel i gydweithio a thyfu
Dibyniaeth yr ardal ar fentrau Micro a Bach	Cefnogi busnesau lleol i ddod yn fwy mentrus, cynyddu eu hincwm a'u galluogi i fod yn gystadleuol yn y farchnad
	Cefnogi busnesau'r ardal i gyrraedd marchnadoedd newydd
	Cysylltu busnesau'r ardal efo'r cyfleoedd newydd o fuddsoddiadau cyfalaf mawr
Diffyg swyddi a bwllch cyflogaeth sylweddol, yn enwedig yn Ardaloedd Lleol Llŷn, ac yn fwyaf	Cysylltu'r boblogaeth oed gwaith efo swyddi a sectorau newydd o fewn Llŷn ac Eifionydd, ac mewn canolfannau gwaith a safleoedd cyfagos
	Manteisio ar y broblem canran is o eiddo busnes

Her	Ymateb
arbennig yn Ardal Nefyn & Gogledd Llŷn a Phen Llŷn	mewn defnydd yn nhref Nefyn, gan ddefnyddio'r asedau yma ac yn rhai o bentrefi Pen Llŷn, i greu cyfleon gwaith a menter
Anghenion cyflogwyr ddim yn cael eu hateb	Datblygu sgiliau trigolion yr ardal i gwrdd ag anghenion cyflogwyr heddiw, ac ar gyfer sectorau gwerth uchel y dyfodol

Sefyllfa Ffyniant yr Ardal

Her	Ymateb
Incwm isel a thlodi	Rhoi sylw penodol i gynyddu lefelau incwm a chyflogau ar draws Llŷn ac Eifionydd gan dargedu'r ardal ar gyfer gweithgareddau yn targedu rhinweddau tlodi gwledig yn benodol.
Gostyngiad incwm sylweddol dros gyfnod y Dirwasgiad a pholisi Llymder ym Mhrydain	
Diffyg cydnabyddiaeth i incwm isel yr ardal yn y mynegai swyddogol	Dylanwadu ar y penderfynwyr cenedlaethol er mwyn sicrhau cydnabyddiaeth i sefyllfa incwm isel yr ardal o fewn y setiau data swyddogol sy'n arwain at benderfyniadau cyllido

Camau nesaf ac amserlen

Nid dogfen i'r Cyngor yn unig mo'r Cynllun Cyflogaeth; bwriedir i'r cynllun fod yn agenda cytûn ar gyfer y Cyngor a'i bartneriaid wrth gynnal a chreu gwaith yn Llŷn ac Eifionydd.

Mae'r Adran Economi a Chymuned eisoes wedi cychwyn trafod cynnwys y Cynllun gyda'i bartneriaid yn y maes megis Arloesi Gwynedd Wledig a gyda phrif gyflogwyr ardal Dwyfor a chynrychiolwyr y gymuned busnes yn ehangach yn yr ardal. Ar sail y trafodaethau hyn a chynnwys Cynllun Strategol cyfredol y Cyngor lluniwyd rhaglen waith cychwynol i'r Cynllun sydd i'w weld ar dudalennau 14 i 18 y ddogfen.

Yn hyn o beth, y prif bwyslais fydd ar sicrhau fod y fantais fwyaf bosib yn deillio o'r buddsoddiadau cyfalaf sydd eisoes wedi eu cwblhau (megis Yr Academi Hwyllo, Llwybr Arfordir Cymru, Nant Gwrtheyrn, Cyflymu Cymru, ayyb) ac ar wyro rhaglenni presennol megis Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru i roi sylw i anghenion penodol yr ardal.

Bydd adroddiad blynyddol ar weithredu'r Cynllun Cyflogaeth yn cael ei gyflwyno i Aelodau Fforwm Ardal Dwyfor.

Barn y swyddogion statudol

Y Prif Weithredwr:

"Mae'n bwysig bod gan y Cyngor gyfeiriad clir ar gyfer ei waith adnewyddu ac adfywio yn yr ardal hon; dyna pam yr ymrwymwyd i baratoi cynllun o'r fath, ar yr un patrwm a Chynllun Cyflogaeth Meirionydd. Rwy'n cymeradwyo'r Cynllun sydd wedi ei drafod gyda'r Fforwm Ardal yn Nwyfor."

Y Swyddog Monitro:

"Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb".

Y Pennaeth Cyllid:

"Rwy'n cefnogi'r argymhelliad i fabwysiadu 'Cynllun Cyflogaeth Llŷn ac Eifionydd', gan nodi fod yr adroddiad blaen yn datgan (ar yr ail dudalen yn y paragraff uwchben "ystyriaethau perthnasol") nad yw'r eitemau yn y rhaglen waith yma ar gyfer 2016/17 yn ymrwymo adnoddau'r Cyngor uwchben yr hyn sydd eisoes wedi'i glustnodi i'r perwyl, ac mai bwriad Cynllun Cyflogaeth yw cyfeirio a chydlynu ymdrechion i sicrhau bydd ymyraethau yn ardal Llŷn ac Eifionydd yn effeithiol ac effeithlon.

Credaf fod y rhagymadrodd yn rhan 8 o'r Cynllun Cyflogaeth, cyn rhestru'r rhaglen waith, yn eglurhad teg iawn o'r cyd-destun. Ymhellach, mae'r awdur wedi cadarnhau fod y rhaglen waith hwnnw i'w ariannu drwy gyfuniad o ddefnydd adnoddau presennol yr Adran Economi a Chymuned, ynghyd ag ymrwymadau cyfredol o Gynllun Strategol y Cyngor (eitemau gyda * yn y

rhaglen waith), a chynlluniau sydd wedi'u cyllido'n allanol (e.e. Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop).

Rwy'n gwerthfawrogi hefyd fod yr adroddiad blaen yn datgan (yn y drydedd paragraff ar y bedwaredd dudalen, o dan "Camau nesaf ac amserlen") fydd prif bwyslais y Cynllun Cyflogaeth ar "sichrau fod y fantais fwyaf bosib yn deillio o'r buddsoddiadau cyfalaf sydd eisoes wedi eu cwblhau (megis Yr Academi Hwyllo, Llwybr Arfordir Cymru, Nant Gwrtheyrn, Cyflymu Cymru, ayyb) ac ar wyro rhaglenni presennol megis Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru i roi sylw i anghenion penodol yr ardal."

Atodiadau

Atodiad 1

DRAFFT Cynllun Cyflogaeth Llŷn ac Eifionydd

Cynllun Cyflogaeth
LLŶN AC EIFIONYDD

Drafft

Mawrth 2016

Cynnwys

(i'w osod cyn cyhoeddi)

Drafft

Cyflwyniad

gan Gadeirydd Fforwm Ardal Dwyfor ac Aelod Cabinet dros yr Economi

(i'w lunio cyn cyhoeddi)

Drafft

1. Rhagair

Mae Gwynedd yn sir ddaearyddol eang a gwasgaredig, gyda nodweddion ei heconomi yn amrywio rhwng, ac o fewn, ei hardaloedd. Nid yw'r sir yn hynod o anhysbell o'r prif farchnadoedd – ac mae cysylltiadau trafniadaeth a thechnoleg gwybodaeth safonol yn eu lle - rhaid cydnabod nad yw Gwynedd gyfan, nac Llŷn ac Eifionydd yn benodol, ar garreg drws ardaloedd mawr poblog. Er hyn, mae manteision llu i'r ardal, o ryfeddodau ei rhinweddau naturiol a diwylliannol i ysbryd fentrus ei thrigolion.

Pwrpas y Cynllun hwn ydi adnabod sefyllfa cyflogaeth yn Llŷn ac Eifionydd, gan gynnwys edrych ar y boblogaeth oed gwaith, y gofynion am waith, y sectorau gwaith o fewn yr ardal a'u maint o ran nifer mentrau a'u cyflogaeth, natur gweithleoedd yr ardal, a sefyllfa ffyniant yr ardal, gan hefyd osod nod ac amcanion ar gyfer ymateb i'r sefyllfa, a nodi rhaglen waith bosib.

Mae'r Cynllun yn seiliedig ar dystiolaeth data 2013 ac, yn dilyn y patrwm arloesol fabwysiadwyd gyda Chynllun Cyflogaeth Meirionnydd, mae'n ceisio creu darlun o economi Llŷn ac Eifionydd ar bwynt mewn amser, a'r darlun hwnnw, lle gellir, wedi ei ddatblygu o'r ystadegau perthnasol i'r ardaloedd lleol - Ardal Pen Llŷn, Ardal De Llŷn, Ardal Pwllheli, Ardal Nefyn a Gogledd Llŷn, Ardal Criccieth ac Ardal Porthmadog.

Mae cymryd golwg mwy lleol yn hytrach na dibynnu ar ystadegau ar sail ddaearyddol sirol neu isranbarthol wedi amlygu darlun ychydig yn wahanol o Llŷn ac Eifionydd, a pha ffactorau sydd angen sylw os ydi'r ardal a'i thrigolion i ffynnu i'r dyfodol.


Mae'r darlun ystadegol, felly, wedi adnabod rhai cryfderau e.e. y ganran uchaf yn y sir o'r rhai sy'n economaidd weithgar. Fodd bynnag, mae hefyd wedi adnabod sawl her. Yn gryno:

- Her cynladwyedd i'r dyfodol o ran cynnal maint y boblogaeth oed gwaith;
- Her bresennol o anallu'r ardal i ddarparu cyflogaeth ar raddfa ddigonol i faint ei phoblogaeth oed gwaith yn enwedig mewn rhai o'r ardaloedd lleol;
- Her diffyg swyddi gwag i gwrdd â'r gofyn presennol – a'r nifer uchel sy'n teithio tu hwnt i'r ardal i'w gwaith;
- Her ymateb i'r newidiadau yn y drefn Lles sydd yn dod yn weithredol, a darparu'r swyddi ychwanegol fydd eu hangen os am gwrdd â disgwyliadau Llywodraeth Prydain i bobl symud o fudd-daliadau i waith;
- Her diffyg presenoldeb sectorau gwerth uchel sy'n cynnig swyddi da efo cyflogau uwch;
- Her cyflogaeth uchel o fewn sectorau gyda chyflogau is;
- Her dibyniaeth yr ardal ar fentrau a gweithleoedd meicro – a diffyg mas critigol ohonynt mewn sectorau gwerth uchel;
- Her incwm isel a thlodi eang mewn ardal sydd wedi dioddef yn arbennig o ostyngiad incwm sylweddol dros gyfnod y Dirwasgiad a pholisïau Llymder ym Mhrydain.

Dyma gyfres o heriau felly, sydd efo'i gilydd yn cael effaith negyddol ar economi a chyflogaeth o fewn yr ardal - ac, oni bai am gamau i'w hateb, mae peryg iddynt filwriaethu yn erbyn gallu cynnal lefel y boblogaeth a sicrhau dyfodol economaidd llewyrchus.

Drafft

2. Daearyddiaeth y Cynllun




Lleolir Llŷn ac Eifionydd (Dwyfor) yn eithaf gorllewinol Gwynedd. Mae'r ardal yn 621Km² sydd yn 24% o holl diriogaeth sir Gwynedd. Cymerir bron i awr a hanner i yrru o un pen yr ardal i'r llall (Uwchmynydd i Nant Gwynant).

Yn ddaearyddol, mae'r ardal gydag arfordir hir (153Km) sydd yn 44% o arfordir Gwynedd gyfan ac mae'n ymestyn o benrhyn Llŷn i ucheldiroedd Eryri. Un o brif nodweddion yr ardal yw ansawdd rhyfeddol y tirwedd naturiol; fel a gydnabyddir gan ddynodiad Parc Cenedlaethol Eryri, Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn ac Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau.

Mae Pen Llŷn ac Eifionydd yn gartref i 27,500 o drigolion (23% o gyfanswm Gwynedd) gyda 56% ohonynt o oed gwaith (16 i 64). Mae dros 71% o'r boblogaeth yn gallu'r Gymraeg. Mae'r mwyafrif o'r boblogaeth yn byw yn y gadwyn o drefi a phentrefi sydd wedi eu lleoli ar hyd yr arfordir. Pwllheli a Porthmadog yw'r canolfannau mwyaf poblog yn Llŷn ac Eifionydd.

Yn gymdeithasol ac yn economaidd mae cydberthynas a chyd-ddibyniaeth rhwng Llŷn ac Eifionydd a'r ardaloedd sydd yn ei ffinio. Mae Porthmadog, er enghraifft, yn ganolfan gwasanaeth a chyflogaeth ar gyfer ardal sydd yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau'r ardal dan sylw. Mae nifer sylweddol hefyd yn cymudo i ac o Llŷn ac Eifionydd i weithio ac i gael mynediad i wasanaethau.

I bwrpas y Cynllun Cyflogaeth mae Llŷn ac Eifionydd wedi ei ddethol i chwe ardal:



Ardal	Arwynebedd (% o'r cyfan)	Poblogaeth (% o'r cyfan)	Poblogaeth 16 - 64 (% o'r cyfan)	Wardiau
Nefyn a Gogledd Llŷn	10,884ha (18%)	5,282 (19%)	57% (20%)	Nefyn, Morfa Nefyn, Llanaelhaearn, Clynnog
Pen Llŷn	11,751ha (19%)	2,931 (11%)	57% (11%)	Aberdaron, Botwnnog, Tudweiliog
De Llŷn	9,862ha (16%)	4,291 (16%)	54% (15%)	Llanengan, Abersoch, Llanbedrog, Efailnewydd / Buan
Pwllheli	3,034ha (5%)	5,313 (19%)	58% (20%)	Pwllheli (De), Pwllheli (Gogledd), Abererch
Criccieth	15,289ha (25%)	5,000 (18%)	55% (18%)	Criccieth, Llanystumdwy, Dolbenmaen
Porthmadog	11,243ha (18%)	4,767 (17%)	55% (17%)	Porthmadog (Dwyrain), Porthmadog (Gorllewin), Porthmadog- Tremadog

3. Y Gweithlu Posib



Er mwyn cael darlun o faint y gweithlu a'r potensial i ychwanegu ato edrychwyd ar ffigyrau:

- Strwythur y boblogaeth fel cyd-destun
- Y boblogaeth oed gwaith a gweithgarwch economaidd;
- Y potensial i ychwanegu at y gweithlu;
- Y Budd-dal Ceiswyr Gwaith (JSA);
- Y mathau o swyddi roedd ceiswyr gwaith am eu cael.

Y **prif negeseuon** ydi (gweler Atodiad 1 am wybodaeth cefndirol):

Y Boblogaeth Oed Gwaith

- Llŷn ac Eifionydd oedd efo'r boblogaeth oed gwaith isaf o dair Ardal y sir, gyda gostyngiad o 237 ers 2012
- Roedd nifer a chanran rhai 65 oed a throsodd yn sylweddol uwch na'r grŵp ifanc (0-15oed), a hyn yn cynrychioli her i gynladwyedd yr ardal yn y dyfodol;

Y Gofyn am Waith a Swyddi ar Gael


- Serch hynny roedd 28.9% o'r Ceiswyr Gwaith o fewn yr ardal o dan 25 oed;
- O'r ffigyrau JSA lleol yn unig (pob oed) gellir rhagweld ychwanegu 300-500 at y gweithlu yn Llŷn ac Eifionydd petai'r swyddi ar gael;
- O dair Ardal Gwynedd, Llŷn ac Eifionydd oedd gyda'r nifer isaf o swyddi gwag 155 swydd;
- Doedd dim digon o swyddi i gwrdd â'r gofyn gan y Ceiswyr Gwaith;
- Fe fydd y rhai ar Fudd-daliadau yn cael eu targedu o dan y diwygiadau yn y drefn Lles er mwyn eu cael i waith – roedd 1,395 o dderbynwyr Budd-daliadau Allan o Waith, a bydd canfod gwaith o fewn yr ardal ar gyfer hyd yn oed cyfran o'r rhain yn gryn her.

Er mwyn ymateb i'r prif heriau i gynyddu'r gweithlu bydd angen rhoi sylw gyda phartneriaid i ddatblygu ymyraethau priodol.

Her	Ymateb
Cynnal y boblogaeth oed gwaith	Creu'r amodau i deuluoedd a phobl ifanc aros, neu ddychwelyd i Llŷn ac Eifionydd i fyw a gweithio
Diffyg swyddi i gwrdd â'r galw heddiw ac yn y dyfodol	Sefydlu'r amodau i greu rhagor o swyddi newydd o fewn yr ardal
	Cysylltu pobl oed gwaith gyda swyddi a chyfleoedd newydd o fewn yr ardal, a chanolfannau gwaith cyfagos tu hwnt i'r ardal
Newidiadau yn y drefn Lles	Datblygu sgiliau trigolion yr ardal, er mwyn sicrhau mynediad at swyddi a goresgyn rhwystrau i waith

Drafft

4. Swyddi a Strwythur Cyflogaeth



Er mwyn cael darlun o strwythur cyflogaeth a sefyllfa swyddi yn Llŷn ac Eifionydd a'r ardaloedd mwy lleol edrychwyd ar

- Nifer a mathau o swyddi ar gael;
- Natur swyddi'r gweithlu;
- Faint sy'n cael eu cyflogi yn yr ardal ac yn lleol;
- Sectorau gwaith a'r gyflogaeth fesul sector;
- Maint mentrau fesul sector a'u cyflogaeth;
- Eiddo busnes trefi'r ardal, a faint mewn defnydd.

Y **prif negeseuon** ydi (gweler Atodiad 1 am wybodaeth cefndirol):

Swyddi Gwag

- Doedd dim digon o swyddi i gwrdd â'r gofyn gan y Ceiswyr Gwaith;
- Ar ben hyn, amlygwyd bwlich cyflogaeth sylweddol yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd lleol, ar wahân i Ardal Porthmadog – a'r bwlich mwyaf yn Ardal Nefyn & Gogledd Llŷn, ardal gyda phoblogaeth uchel oed gwaith;
- Roedd oddeutu 2,739 yn teithio tu hwnt i Llŷn ac Eifionydd i weithio, ac eraill yn teithio i mewn i'r ardal i'w gwaith;
- Fe fydd y rhai ar Fudd-daliadau yn cael eu targedu o dan y diwygiadau yn y drefn Lles er mwyn eu cael i waith – roedd 1,395 o dderbynwyr Budd-daliadau Allan o Waith, a bydd canfod gwaith o fewn yr ardal ar gyfer hyd yn oed cyfran o'r rhain yn gryn her;
- Doedd y swyddi ar gael ddim yn cyfateb i angen neu ddyhead cyfran helaeth o'r ceiswyr gwaith;
- Doedd angen cyflogwyr ddim chwaith yn cael ei ateb – gydag e.e. neb yn ceisio gwaith yn y maes Technoleg er bod 9 swydd ar gael;
- Roedd canran is o swyddi'r ardal yn rhai llawn-amser;

- Roedd yr economi yn parhau yn un dymhorol.

Sectorau a Chyflogaeth

- Roedd y gyflogaeth fwyaf o ddigon yn y sectorau Bwyd & Llety (2,100) ac Amaeth, Coedwigaeth & Physgota, gyda chyflogaeth arwyddocaol hefyd yn y sectorau Mânwerthu (1,400) ac Iechyd (1,100);
- Roedd Adeiladwaith a Chyfanwerthu hefyd yn sectorau gyda phresenoldeb uwch yn yr economi leol;
- Does yr un o'r sectorau yma yn cael eu cyfrif fel sectorau sy'n talu cyflogau uchel;
- Mae rhannau o'r sector Celfyddydau, Adloniant, Hamdden a Gwasanaethau Eraill yn cael eu cyfrif yn cynnig cyflogaeth gwerth uchel, a thra roedd y sector yn gyfrifol am 5.1% o fentrau'r ardal - tipyn is nag Arfon na Chymru - o ran swyddi roedd yn cyflogi 700, sef 8.1% o gyflogaeth yr ardal, a hynny ddwywaith canran Cymru, ac Arfon, ond fod gan Arfon 1,100 o weithwyr yn y sector. Dyma bresenoldeb felly y gellir adeiladu arno wrth anelu am swyddi o safon;
- Roedd presenoldeb sector gwerth uchel Gwybodaeth a Chyfathrebu yn isel yn yr ardal, tipyn is nag yn Arfon, Cymru na'r DG, gyda 100 yn cael eu cyflogi yn Llŷn ac Eifionydd;
- Roedd yr ardal yn gryf yn y sectorau ystyrir yn rhai gwerth isel - a phrinder cyflogaeth yn y sectorau hynny ystyrir yn rhai gwerth uchel gyda chyflogau da;
- Roedd y sector breifat yn gryfach yn yr ardal (78.5%), a'r sector gyhoeddus yn wannach yn yr ardal (21.5%), nag yn ardaloedd eraill Gwynedd, na Chymru;
- Roedd 88.1% o weithleoedd yr ardal yn rhai Meicro (0-9 gweithiwr), y ganran uchaf o 3 Ardal Gwynedd, ond y gyflogaeth fwyaf (3,900 o weithwyr) mewn gweithleoedd Bach (10-49 gweithiwr) - prin iawn oedd y mentrau Mawr (dros 250 gweithiwr);
- Roedd canran arwyddocaol is o eiddo busnes mewn defnydd yn nhref Nefyn.

Er mwyn ymateb i'r prif heriau o wendid strwythurol yr economi, a methiant y farchnad o ran cyflogaeth ddigonol ac addas, bydd angen rhoi sylw gyda phartneriaid i ddatblygu ymyraethau priodol.

Her	Ymateb
Diffyg presenoldeb sectorau gwerth uchel a swyddi gyda chyflogau da	Sefydlu'r amodau i wreiddio a thyfu sectorau gwerth uchel o fewn yr ardal, yn arbennig y rhai all gynnig amrywiaeth o swyddi newydd a chyflogau da
	Cefnogi busnesau lleol sydd eisoes mewn sectorau gwerth uchel i gydweithio a thyfu
Dibyniaeth yr ardal ar fentrau Meicro a Bach	Cefnogi busnesau lleol i ddod yn fwy mentrus, cynyddu eu hincwm a'u galluogi i fod yn gystadleuol yn y farchnad
	Cefnogi busnesau'r ardal i gyrraedd marchnadoedd newydd
	Cysylltu busnesau'r ardal efo'r cyfleoedd newydd o fuddsoddiadau cyfalaf mawr
Diffyg swyddi a bwllch cyflogaeth sylweddol, yn enwedig yn	Cysylltu'r boblogaeth oed gwaith efo swyddi a sectorau newydd o fewn Llŷn ac Eifionydd, ac mewn canolfannau gwaith a safleoedd cyfagos

Ardaloedd Lleol Llŷn, ac yn fwyaf arbennig yn Ardal Nefyn & Gogledd Llŷn a Phen Llŷn	Manteisio ar y broblem canran is o eiddo busnes mewn defnydd yn nhref Nefyn, gan ddefnyddio'r asedau yma ac yn rhai o bentrefi Pen Llŷn, i greu cyfleon gwaith a menter
Anghenion cyflogwyr ddim yn cael eu hateb	Datblygu sgiliau trigolion yr ardal i gwrdd ag anghenion cyflogwyr heddiw, ac ar gyfer sectorau gwerth uchel y dyfodol

Drafft

5. Sefyllfa Ffyniant yr Ardal



Er mwyn adnabod sefyllfa ffyniant Llŷn ac Eifionydd edrychwyd ar:

- Y darlun traddodiadol arferol roddir ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC), gyda'r mynegai mwyaf diweddar yn 2011;

Turiwyd ymhellach o dan y wyneb wedyn i geisio darlun lleol mwy perthnasol i gymunedau ar y ddaear fel petai, ac i agweddau sy'n cysylltu efo gwaith a chyflogaeth, gan edrych ar:

- Incwm aelwydydd
- Y diffiniad cydnabyddedig o dlodi a sefyllfa'r ardal
- Incwm ochr yn ochr â phrisiau tai, gan fesur y gallu lleol i brynu tŷ.

Y **prif negeseuon** ydi (gweler Atodiad 1 am wybodaeth cefndirol):

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

- Tra, yn ôl MALIC, does yr un ardal gyfrif yn Llŷn ac Eifionydd yn ymddangos yn y 30% gwaethaf yng Nghymru o ran incwm, mae ffigyrau o ffynonellau swyddogol cydnabyddedig eraill yn amlygu problem wirioneddol o incwm isel;
- Mae edrych ar ardaloedd mwy lleol trwy gyfrwng daearyddiaeth y Cynllun Cyflogaeth yma, a setiau eraill o wybodaeth wedi eu seilio ar wardiau, yn cynnig darlun tra gwahanol o sefyllfa ffyniant Llŷn ac Eifionydd – a darlun cefndirol mwy perthnasol i'r maes cyflogaeth.

Ydi'r Ardal yn Ffynnu?

- Roedd 38.2% o aelwydydd Llŷn ac Eifionydd, yn byw o dan y trothwy tlodi yn 2013 - canran uwch nag yn Arfon, Gwynedd, Cymru na'r DG - gyda 18.4% o'r aelwydydd hefyd efo incwm o lai na £10,000 y flwyddyn;
- Dros gyfnod y Dirwasgiad a pholisïau Llymder ym Mhrydain gwelodd Llŷn ac Eifionydd ostyngiad o 13.1% yn incwm canolrif aelwydydd, sef colled o £3,253;

- Yn nhermau Cymru a'r DG roedd canran y gostyngiad incwm rhwng 2009 a 2013 yn Llŷn ac Eifionydd ddwywaith y ganran yng Nghymru (6.6%) a'r DG (6.5%);
- Yn gyffredinol doedd incwm teuluoedd yr ardal ddim yn ddigon i gwrdd â phrisiau tai yn lleol na gofynion benthycwyr morgais - mae hyn yn arwydd cydnabyddedig o dlodi eang ac nid dim ond mewn rhai lleoliadau a phocedi yn unig,

Er mwyn ymateb i'r prif heriau i ffyniant yr ardal bydd angen rhoi sylw gyda phartneriaid i ddatblygu ymyraethau priodol.

Her	Ymateb
Incwm isel a thlodi eang	Rhoi sylw penodol i gynyddu lefelau incwm a chyflogau ar draws Llŷn ac Eifionydd gan dargedu'r ardal ar gyfer gweithgareddau yn targedu rhinweddau tlodi gwledig yn benodol.
Gostyngiad incwm sylweddol dros gyfnod y Dirwasgiad a pholisi Llymder ym Mhrydain	
Diffyg cydnabyddiaeth i incwm isel yr ardal yn y mynegai swyddogol	Dylanwadu ar y penderfynwyr cenedlaethol er mwyn sicrhau cydnabyddiaeth i sefyllfa incwm isel yr ardal o fewn y setiau data swyddogol sy'n arwain at benderfyniadau cyllido

Drafft

6. Prif Gasgliadau

Mae'n anorod fod dibyniaeth economi Llŷn ac Eifionydd ar y mentrau meicro a bach, y diffyg gweithleoedd maint canolig a mawr, a phresenoldeb is y sector gyhoeddus, yn dylanwadu ar faint y gyflogaeth o fewn yr ardal ac ar bosibiliadau twf i gwrdd â gofynion cyflogaeth heddiw ac i'r dyfodol - ac yn anffodus, o gofio hefyd gryfder presenoldeb y sectorau gwerth isel, mae'n amlwg nad ydi'r mentrau micro a bach yma, er eu lluosogrwydd, yn creu'r mas critigol sydd ei angen mewn sectorau gwerth uchel sy'n talu'n dda.

Gwelir methiant y farchnad o fewn yr economi leol - darlun o economi sydd yn sefyll yn ei hunfan, a'r angen am ymyrraeth i ysgogi mas critigol o fentrau mewn sectorau gwerth uchel, cefnogaeth i fentrau dyfu a chynyddu gwerth eu cynnyrch, ac i sicrhau fod yr ardal yn gwneud y mwyaf o'i hadnoddau naturiol, ei hasedau, ac o fuddsoddiadau ddaw er mwyn sicrhau twf mewn cyfleon gwaith, ac yn benodol gwaith efo cyflogau da.

Ar yr un pryd mae gan Llŷn ac Eifionydd adnoddau heb eu hail - o ran ei chyfoeth naturiol, amgylchedd, cynnyrch, ei threftadaeth, ei thalentau a'r iaith Gymraeg. Mae hunandibyniaeth, a'r parodrydd i greu bywoliaeth trwy fentro i fusnes, hefyd yn nodweddion amlwg yn yr ardal.

Mae cyfleoedd newydd eisoes yn cael eu datblygu yn Llŷn ac Eifionydd, a chyfleoedd posib eraill ar y gorwel trwy fuddsoddiadau newydd - yr her fydd tynnu budd ehangach o'r cyfleoedd hynny o ran cynyddu gwaith i drigolion yr ardal, yn enwedig ei phobl ifanc, codi lefelau cyflog o fewn yr ardal, gwneud y defnydd gorau o asedau'r ardal a chefnogi ffyniant a thwf busnesau lleol.

Datblygu'r Ymateb

Mae'r Cynllun Cyflogaeth, felly, yn gosod y cyfeiriad i'r Cyngor a'i bartneriaid yn eu hymdrechion i ymateb i'r her, ac i sicrhau mwy o swyddi o fewn yr ardal, gwella ansawdd y swyddi, a chynyddu nifer y swyddi hynny sy'n talu cyflogau da.

Gan adeiladu ar gryfderau'r ardal, rhagwelir gweithredu o dan gyfres o themâu sydd yn cydweddu a meysydd gweithgaredd Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014 - 2020, sef.

- Ychwanegu gwerth at hunaniaeth leol ac adnoddau diwylliannol / naturiol
- Hwyluso datblygiad masnachol, partneriaethau busnes a chadwyni cyflenwi byr.
- Ynni adnewyddadwy ar lefel gymunedol
- Manteisio ar dechnoleg ddigidol.

7. Nod ac Amcanion

Ar sail y dadansoddiad o sefyllfa'r ardal, mabwysiadwyd y Nod ac Amcanion canlynol:

Nod

Cydweithio gyda phartneriaid i adeiladu ar gryfderau Llŷn ac Eifionydd - ei hadnoddau naturiol, cynnyrch, treftadaeth, ei thalentau, ei hunaniaeth a'r iaith Gymraeg - er mwyn cynyddu cyflogaeth, mentergarwch a swyddi gwerth uchel ar draws yr ardal, manteisio ar cyfleoedd i fusnesau lleol dyfu, a chreu'r amodau i bobl ifanc aros neu ddychwelyd i'r ardal i fyw a gweithio

Amcanion

1. Manteisio ar fuddsoddiadau cyfalaf mawr, ac isadeiledd newydd, o fewn yr ardal gan sefydlu a gweithredu glasbrint efo'n partneriaid ar gyfer cynhyrchu gwerth economaidd ychwanegol o ran cyfleoedd i fusnesau, creu swyddi, a chyflogaeth gwerth uchel
2. Annog a chefnogi mentergarwch o fewn yr ardal, yn arbennig o fewn ein pobl ifanc, ac mewn meysydd a sectorau gwerth uchel megis awyr agored, yr amgylchedd, ynni, gwyddonol, technoleg a'r diwydiannau creadigol, gan hefyd gefnogi busnesau'r ardal i fod yn fwy mentrus a chystadleuol
3. Sicrhau sylw penodol i ymateb i heriau cyflogaeth a manteisio ar cyfleoedd ac asedau Ardaloedd Nefyn a Phen-draw Llŷn
4. Gwneud y mwyaf o raglenni economaidd a sgilio cenedlaethol, rhanbarthol a sirol gan sicrhau gwyro ymyrraeth i Llŷn ac Eifionydd

8. Rhaglen Waith 2016-17

Mae nifer o gynlluniau strategol economaidd ac adfywio eisoes ar waith gan y Cyngor a phartneriaid yn Llŷn ac Eifionydd, ac fydd rhain yn parhau i gael eu gweithredu ac maent wedi eu cynnwys yn y Rhaglen Waith.

Ar yr un pryd mae angen gweithredu yn rhagweithiol gyda chynlluniau pwrpasol i ymateb i'r heriau sydd wedi eu hadnabod ac i gyfleoedd newydd.

Mae'r sefyllfa gyllidol dros y cyfnod nesaf yn mynd i fod yn un heriol, ond mae cyfleoedd hefyd, gan gynnwys gwyro cynlluniau ac uchafu gwariant rhaglenni cenedlaethol a rhanbarthol perthnasol i amgylchiadau Llŷn ac Eifionydd.

Adolygir a chyhoeddir y Rhaglen Waith yn flynyddol a dyma Raglen Waith gyntaf y Cynllun hyd at ddiwedd y flwyddyn 2016-17. Mae'r Rhaglen yn bennaf yn seiliedig ar ymrwymadau Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd (wedi eu dynodi gan *):

Tud. 32

Cynllun	Gweithgaredd	Gweithredu
Swyddi gwerth uchel ac o ansawdd*	<ul style="list-style-type: none"> Cyfeirio ymholiadau mewnfuddsoddi priodol i ardal Llŷn ac Eifionydd Teilwra canlyniadau ymchwil y rhaglen i'r sectorau gwerth uchel mwyaf perthnasol i Wynedd yn benodol i gryfderau / cyfleoedd Llŷn ac Eifionydd. Cyfeirio'n benodol i Llŷn ac Eifionydd wrth hyrwyddo'r sir yn lleoliad ar gyfer busnesau yn cynnig swyddi gwerth uchel. Cefnogi busnesau Llŷn ac Eifionydd i fanteisio ar gyfleoedd yn deillio o fuddsoddiadau sylweddol megis Wylfa Newydd a Pharth Menter Eryri. Sefydlu rhwydweithiau busnes i gefnogi cwmnïau ac unigolion yn gweithio o fewn meysydd gwerth uchel megis y diwydiannau creadigol a thechnoleg gwybodaeth i gydweithio. 	Hyd at 31/03/17
Cadw'r budd yn lleol*	<ul style="list-style-type: none"> Rhoi sylw penodol i annog a chefnogi mentrau o Llŷn ac Eifionydd i gyflawni nwyddau a gwasanaethau i'r Cyngor. Adnabod a chydweithio gyda buddsoddiadau mawrion yn isadeiledd Llŷn ac Eifionydd (e.e. isadeiledd llifogydd) gan adnabod a chytuno ar ddulliau o uchafu'r budd i drigolion a busnesau lleol. 	Hyd at 31/03/17

Cynllun	Gweithgaredd	Gweithredu
	<ul style="list-style-type: none"> Gweithredu'r rhaglen Partneriaeth Ganol Tref ym Mhorthmadog gan ymchwilio i adnabod a lledaenu ymarfer da yn deillio o'r rhaglen i rannau eraill o ardal Llŷn ac Eifionydd. 	
Gwynedd Ddigidol*	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau cwblhau'r rhaglen Cyflymu Cymru cyn gynted â phosib yn Llŷn ac Eifionydd (bandeang cyflym eisoes wedi cychwyn cael ei ddarparu ymhob ardal cyfnewidfa ffon ond am un). Hyrwyddo'r grant Allwedd Bandeang Cymru i'r ychydig fusnesau fydd ddim yn erbyn gwasanaeth drwy Cyflymu Cymru (pan yn hysbys), ynghyd a hyrwyddo argaeledd grantiau bandeang uwchgyflym i fusnesau sydd angen gwell darpariaeth . Pwyso ar gwmnïau ffôn symudol i wella ansawdd ac argaeledd eu darpariaeth data yn Llŷn ac Eifionydd. Sicrhau fod busnesau Llŷn ac Eifionydd yn manteisio i'r eithaf ar fandeang drwy hyrwyddo darpariaeth y cynllun Cyflymu Busnes Cymru gan sicrhau fod y cynllun yn cyfeirio adnoddau a gweithgaredd i'r ardal. Ymchwilio i gyfleoedd i ddatblygu'r sector TGCh ynghyd a defnydd cymunedol arloesol o dechnoleg gan roi sylw penodol i ardaloedd megis Gogledd Llŷn sydd eisoes wedi eu sefydlu yn y maes. 	Hyd at 31/03/17
Cefnogi'r economi wledig*	<ul style="list-style-type: none"> Cydweithio'n agos gyda Arloesi Gwynedd Wledig (darpariarth LEADER Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru yng Ngwynedd) i adnabod, datblygu a gweithredu cynlluniau peilot yn Llŷn ac Eifionydd fydd yn elwa Gwynedd Wledig yn ei gyfanrwydd. Cynlluniau peilot presennol yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> prosiect cyfalaf lleol <i>Be Nesa Llŷn</i>; prosiect wi-fi cyhoeddus cymunedol yn Aberdaron treialu tocynnau digidol i'r sector trafndiaeth gymunedol gyda <i>O Ddrws i Ddrws</i> datblygu gofod gwaith ar y cyd ym Mhorthmadog Annog a chefnogi ceisiadau i Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop gan gynnwys cydweithio i sefydlu strwythur priodol ar gyfer elfen LEADER y rhaglen. Annog a chefnogi mynediad gan fentrau yn Llŷn ac Eifionydd i gronfeydd cenedlaethol Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru gan gynnwys y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig 	Hyd at 2020

Cynllun	Gweithgaredd	Gweithredu
	<ul style="list-style-type: none"> • Dylanwadu i gyfeirio adnoddau rhaglenni cenedlaethol Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru (megis Cyswllt Ffermio) i ardal Llŷn ac Eifionydd. • Lobio i gyfeirio ffynonellau amgen o adnoddau ac arian megis y Loteri Fawr i ardaloedd gwledig. 	
Digwyddiadau proffil uchel a strategol*	<ul style="list-style-type: none"> • Gweithio law yn llaw a'r digwyddiadau mawr gan adnabod cyfleoedd, a datblygu syniadau a phrosiectau penodol er mwyn gwneud y gorau o'r cyfleoedd i fusnesau a thrigolion Gwynedd • Gweithio'n agos gyda Uned Digwyddiadau Mawr Llywodraeth Cymru ar brosiectau er mwyn denu buddsoddiad ychwanegol gan y Llywodraeth • Gweithio gyda threfnwyr digwyddiadau er mwyn sicrhau bod cyfleoedd i bobl ifanc Gwynedd elwa o'r digwyddiadau trwy gynorthwyo neu gymryd rhan ynddynt • Parhau i gefnogi Plas Heli Cyf i ddatblygu darpariaeth y ganolfan gan ddenu digwyddiadau arwyddocaol i'r ardal. • Gweithredu rhaglen i uchafu'r budd i'r gymuned lleol yn deillio o Gwyl Rhif 6 ym Mhortmeirion gan gynnwys gweithgareddau penodol i annog / denu ymwelwyr i Borthmadog. 	Hyd at 31/03/17
Cydyndrechu yn erbyn tlodi*	<ul style="list-style-type: none"> • Sefydlu cyfeiriad strategol sirol ar gyfer ymdrechion trechu tlodi gan sicrhau fod y cynllun yn cynnwys cydnabyddiaeth o amgylchiadau ac anghenion arbennig Gwynedd Wledig • Gweithredu rhaglen gwytnwch digidol i gefnogi unigolion yng Ngwynedd i feddu ar y sgiliau i ennill budd o'r byd digidol ac yn arbennig o fewn cymunedau gwledig. Bydd ffocws penodol ar gefnogi trigolion ardaloedd gwledig i gael mynediad i wasanaethau ar-lein ac ar sicrhau'r nad yw unigolion yn cael eu heffeithio'n negyddol gan drosglwyddiad y gyfundrefn budd-daliadau i'r we. • Gweithredu rhaglen cynhwysiad ariannol i gefnogi unigolion a theuluoedd i arbed arian a rheoli eu cyllideb gan sicrhau nad yw'r newidiadau i fudd-daliadau yn andwyol iddynt. • Gweithredu'r cynllun TRAC 11 - 16 oed i roi cefnogaeth ddwys i bobl ifanc sydd mewn peryg o gael eu heithrio o addysg a/neu waith gan deilwra gweithgaredd i amgylchiadau arbennig Llŷn ac Eifionydd 	Hyd at 2020

Cynllun	Gweithgaredd	Gweithredu
	<ul style="list-style-type: none"> Cefnogi datblygiad ac yna gweithredu'r cynllun TRAC 16 - 24 eto i roi cefnogaeth ddwys i bobl ifanc hŷn sydd mewn peryg o / wedi cael eu heithrio o addysg a/neu waith gan deilwra gweithgaredd i amgylchiadau arbennig Llŷn ac Eifionydd Cefnogi datblygiad a gweithredu'r cynllun OPUS fydd yn cynnig cefnogaeth ddwys i unigolion sydd wedi eu heithrio o'r farchnad llafur yn arbennig rhai sydd yn wynebu heriau iechyd meddwl. Cefnogi datblygiad a gweithredu'r cynllun PaCE i helpu rhieni economaidd anweithgar 25 oed neu fwy i waith drwy eu cynorthwyo i oresgyn rhwystrau gofal plant i alluogi'r rhiant i baratoi a chael mynediad i'r gweithlu. 	
Llwyddo'n Lleol - gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg, mathemateg	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu a gweithredu cynllun yn seiliedig ar lwyddiant blaenorol y rhaglen Llwyddo'n Lleol i gyfeirio pobl ifanc i feysydd yn gysylltiedig â gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg sydd yn cynnig cyfleoedd gwaith gwerth uchel 	Hyd at 2020
Cefnogaeth Busnes	<ul style="list-style-type: none"> Gweithredu Cronfa Benthyciadau Busnes Cyngor Gwynedd a chynyddu ymwybyddiaeth busnesu o ardaloedd gwledig y sir o becynnau cymorth busnes y Cyngor. Cefnogi a chydweithio gyda Rhwydwaith Busnes Gwynedd a'r Ffederasiwn Busnesau Bychain i sicrhau llais cryf i fusnesau'r sir Dylanwadu i gyfeirio adnoddau rhaglenni cenedlaethol cefnogaeth busnes (megis Busnes Cymru) i ardal Llŷn ac Eifionydd. 	Parhaol
Cymunedau Arfordirol	<ul style="list-style-type: none"> Gweithredu rhaglen o weithgaredd i uchafu'r budd i gymunedau lleol yn deillio o'r llwybr arfordir gan gynnwys cylchdeithiau lleol yn cysylltu cymunedau i'r rhwydwaith cenedlaethol. 12 o'r 18 llwybr sy'n cael eu datblygu'n bresennol yn Llŷn ac Eifionydd. Annog a chefnogi mynediad gan fentrau yn Llŷn ac Eifionydd i gronfeydd cenedlaethol Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop yng Nghymru. Cefnogi gweithredu'r rhaglen Cadw'r Lliw yn Llŷn gan helpu i adnabod a thargedu ffynonellau o gyllid i sicrhau parhad gweithgareddau o fewn y rhaglen Cefnogi'r cynllun Eco-Amgueddfa gan gydweithio i ymchwilio i gyfleoedd i ymestyn y model 	Hyd at 2020

Cynllun	Gweithgaredd	Gweithredu
	i rannau eraill o Llŷn ac Eifionydd.	
Isadeiledd	<ul style="list-style-type: none"> • Adnabod gwelliannau posib i isadeiledd ffyrdd Llŷn ac Eifionydd allai hwyluso datblygu'r economi lleol a creu cyflogaeth. • Mapio'r darpariaeth unedau busnes Llŷn ac Eifionydd ac adnabod unrhyw anghenion. 	Erbyn 31/0317

Drafft

Atodiad 1

Cynllun Cyflogaeth Llŷn ac Eifionydd

GWYBODAETH CEFNDIROL

Drafft

1. Y Gweithlu Posib

1.1. Strwythur y boblogaeth a'r boblogaeth oed gwaith

Cefndir:

- 27,584 oedd holl boblogaeth Llŷn ac Eifionydd yn 2013 yn cynnwys pob oed, a hyn yn cynrychioli llai na chwarter (22.6%) poblogaeth y sir – roedd hanner poblogaeth Gwynedd yn byw yn Arfon (50%), ac ychydig dros y chwarter (27.4%) ym Meirionnydd;
- Tra yn Arfon yn 2013 gwelir niferoedd a chanrannau'r ddau begwn rhai oed 0-15 a rhai 65+ yn eithaf agos i'w gilydd, gydag ystadegau'r grŵp 65+ rhyw gymaint yn is (16.8% o'r boblogaeth), yn Llŷn ac Eifionydd roedd nifer a chanran rhai 65 oed a throsodd (7,398 a 26.8%) yn sylweddol uwch na'r grŵp ifanc (4,699 a 17.0%) - roedd sefyllfa Meirionnydd yn eithaf tebyg gyda 27.0% yn 65 oed a throsodd, ac 16.0% rhwng 0 a 15 oed;
- O gymharu'r ddau begwn oedran doedd dim un ward yn Llŷn ac Eifionydd efo canran uwch yn yr oed 0-15;
- O ran y grŵp oedran 0-15 (gweithlu'r dyfodol) roedd 11 o 20 ward Llŷn ac Eifionydd gyda chanran uwch na chanran Gwynedd (17.2%), a'r canrannau uchaf (yn ôl eu trefn) yn wardiau: Botwnnog (20.3%), Clynnog (20.3%), Dwyrain Porthmadog (20.2%), Llanystumdwy (19.4%), Nefyn (19.3%), Tudweiliog (18.9%), Gogledd Pwllheli (18.4%), a De Pwllheli (18.2%);
- O ran y rhai 65 oed a throsodd roedd 18 o'r 20 ward gyda chanran uwch na Gwynedd (21.9%), a'r canrannau uchaf yn sylweddol uwch, ac yn eu trefn: Llanbedrog (38.8%), Gorllewin Porthmadog (38.0%), Criccieth (33.7%), Abersoch (30.9%), Llanengan (29.3%), Dolbenmaen (28.6%), a Morfa Nefyn (28.3%);

Y boblogaeth oed gwaith:

- Llŷn ac Eifionydd oedd efo'r boblogaeth oed gwaith isaf o dair Ardal y sir, gyda gostyngiad o 237 ers 2012 – roedd 118 yn llai o bobl oed gwaith yn Llŷn, a 119 yn llai yn Eifionydd yn 2013, gyda'r gostyngiadau mwyaf yn Ardal Criccieth (-92) ac Ardal Pwllheli (-64);
- 15,487 felly oedd poblogaeth oed gwaith Llŷn ac Eifionydd yn 2013 a hynny, ar 56.2%, fymryn dros hanner y boblogaeth gyfan – ond yn is na Gwynedd (60.9%), Arfon (65.3%) a Meirionnydd (57.0%);
- Roedd mwyafrif y bobl oed gwaith yn byw yn Llŷn (10,102), ac ychydig dros hanner hynny (5,385) yn byw yn Eifionydd;
- Y dair ardal leol efo'r boblogaeth oed gwaith uchaf o ran nifer oedd Ardal Pwllheli (3,080), Ardal Nefyn & Gogledd Llŷn (3,035), ac Ardal Criccieth (2,752) – roedd 2,633 yn Ardal Porthmadog, 2,327 yn Ardal De Llŷn, a'r ardal leol isaf ei phoblogaeth oed gwaith oedd Ardal Pen Llŷn (1,660);
- O edrych ar wardiau Llŷn ac Eifionydd roedd canran y boblogaeth oed gwaith dros 50% yn y rhan fwyaf o wardiau - y wardiau gyda'r canrannau uchaf yn yr oed gwaith oedd: Llanaelhaearn (61.4%), Gogledd Pwllheli (60.1%), Abererch (57.9%), Efailnewydd/ Buan (57.6%), Aberdaron (57.5%), a Llanystumdwy

(57.1%) – yr unig ward efo poblogaeth oed gwaith o dan 50% oedd Llanbedrog (48.5%).

1.2. Y potensial i ychwanegu at y gweithlu

Gweithgarwch economaidd

- Yn ôl Cyfrifiad 2011 roedd 13,131 o bobl Llŷn ac Eifionydd yn cael eu hystyried yn Economaidd Weithredol - o'r rheiny roedd 12,139 mewn gwaith, 570 yn ddi-waith a 422 yn fyfyrwyr o ryw fath;
- Roedd 6,403 yn cael eu cyfrif yn Economaidd Anweithredol, gyda 3,818 o'r rhain wedi ymddeol, 723 myfyriwr llawn-amser, gyda 702 arall yn gofalu am y cartref neu'r teulu - roedd 829 yn sâl tymor hir neu'n anabl, a 331 arall ddim wedi eu nodi mewn unrhyw gategori;
- 32.8% felly oedd yn economaidd anweithredol;
- Dyma'r ardal efo'r ganran uchaf o fewn y sir o rai Economaidd Weithredol (67.2%) – ac uwch hefyd na Chymru (65.8%) ond is na Lloegr (69.9%);
- Roedd canran uwch hefyd mewn gwaith (62.1%) o gymharu efo Arfon (53.9%), Meirionnydd (60.2%), Cymru (58.2%) – ac yn union yr un ganran â Lloegr;
- Ar ddiwedd 2013, roedd 1,760 o bobl oed gwaith yn Llŷn ac Eifionydd yn hawlio rhyw fath o fudd-dal, gyda'r mwyafrif helaeth o'r rheiny, sef 1,395 (77.6%) yn hawlio Budd-daliadau Allan o Waith;
- Roedd hyn yn ostyngiad ar ffigyrau 2012, gyda 150 yn llai yn hawlio budd-daliadau yn 2013, gan gynnwys 115 yn llai yn hawlio Budd-daliadau Allan o Waith;
- Er y ffigwr o 1,395 hawlwr, ni ellir cymryd yn ganiataol y byddai'r bobl yma yn medru gweithio e.e. gwelir o ffigyrau'r Cyfrifiad y gallasai diffyg iechyd neu amgylchiadau eraill fod yn rhwystr;
- Fodd bynnag, dyma'r garfan dargedir gan y newidiadau trefn Lles ar gyfer eu cael i waith.

Y di-waith:

- Yn ôl ffigyrau swyddogol 2013 fe amrywiodd graddfa diweithdra Llŷn ac Eifionydd ar draws y flwyddyn, o 3.3% (531 person) yn Ionawr i 1.9% (300 person) ym Mehefin, a chodi wedyn i 2.5% (398 person) yn Rhagfyr gan adlewyrchu natur dymhorol yr economi – o ran Cymru a'r DG fe welwyd gostyngiad cyson dros y misoedd hyn, ac mae Arfon yn dilyn y patrwm hwnnw, yn wahanol i ardaloedd mwy gwledig Llŷn & Eifionydd a Meirionnydd;
- Ond ar yr un pryd fel welir hefyd fod y duedd ar i lawr yn Llŷn ac Eifionydd gyda 133 yn llai o bobl yn y categori di-waith yn Rhagfyr 2013 nag ar gychwyn y flwyddyn;
- Ar hyd ac ar ddiwedd 2013 roedd y gyfradd diweithdra yn is yn Llŷn ac Eifionydd (2.5) nag yn Arfon (3.4), Meirionnydd (2.7), Gwynedd (3.0) na'r DG (2.9);

Sefyllfa ceiswyr chwilio am waith – JSA (pob oed):

- Mae'r nifer JSA wrth gwrs yn bwrpasol chwilio am waith, ac felly yn ffigyrau y gellid eu cyfrif fel potensial pendant i ychwanegu at y gweithlu petae swyddi ar gael yn yr ardal;

- Roedd 398 o bobl yn hawlio'r JSA yn Llŷn ac Eifionydd ddiwedd 2013, 262 yn Llŷn a 136 yn Eifionydd - gostyngiad o 92 yn y cyfanswm ers 2012, sef gostyngiad o 68 yn Llŷn a 24 yn Eifionydd;
- Roedd y 398 hawlwy'r JSA pob oed yn gyfystyr â 2.6% o'r boblogaeth oed gwaith – llai nag yn Arfon (3.3%), Meirionnydd (2.8%), a Gwynedd (2.9%);
- Fodd bynnag cynyddodd nifer yr hawlwy'r JSA yn Llŷn ac Eifionydd o 298 ym Mehefin 2013 i 398 yn Rhagfyr 2013, gyda Meirionnydd yn dilyn yr un patrwm – roedd hyn yn hollol groes i'r duedd yn Arfon, Cymru a'r DG lle gwelwyd gostyngiad yn nifer y JSA pob oed;
- O'r 398 yn hawlio'r JSA ddiwedd 2013 roedd 125 (31.4%) wedi bod yn hawlio dros 6 mis ac 80 (20.1%) am dros 12 mis – roedd hyn yn is nag yn Arfon, Meirionnydd, Gwynedd, Cymru na'r DG.

Sefyllfa ceiswyr chwilio am waith – JSA (dan 25 oed):

- Roedd 115 o'r hawlwy'r JSA o dan 25 oed ar ddiwedd 2013, 75 yn Llŷn a 40 yn Eifionydd – eto roedd hyn yn ostyngiad o 30 ar ffigur diwedd 2012, gyda 25 yn llai yn Llŷn a 5 yn llai yn Eifionydd;
- Roedd y 115 o dan 25 oed yn cynrychioli 28.9% o'r holl JSA – canran uwch nag yn Arfon, Meirionnydd, Gwynedd, Cymru na'r DG;
- O'r 115 roedd 15 wedi bod yn hawlio dros 6 mis, a 5 dros 12 mis – a'r canrannau perthnasol hefyd yn rhai bychan iawn o gymharu efo Arfon, Gwynedd, Cymru a'r DG, ond rhyw drwy'r blewyn yn uwch na Meirionnydd oedd â'r canrannau mwyaf ffafriol o ran JSA dan 25 oed;
- O edrych ar y patrwm wardiau roedd y ganran uchaf o JSA o dan 25 oed yn Abererch (50.0%), Aberdaron (44.4%), Botwnnog (44.4%), Abersoch (40.0%), a Morfa Nefyn (38.5%);
- Roedd y canrannau uchaf JSA o ran yr oedran hŷn, sef 25 oed a throsodd, yn wardiau: Tudweiliog (100%), Efailnewydd-Buan (81.8%), Nefyn (80.6%) Criccieth (78.9%), a Thremadog (78.9%).
- O'r ffigurau JSA ochr yn ochr â'r ffigurau diweithdra, ac heb eu cyfrif ddwywaith, gellid rhagweld, gyda'r amgylchiadau cywir, ychwanegu oddeutu 300 i 500 at y gweithlu yn Llŷn ac Eifionydd yn ddibynnol ar swyddi fod ar gael, ac ar gael yn y manau sy'n cyd-fynd efo'r galw lleol;
- Fe fydd disgwyl hefyd i gyfran o'r rhai ar Fudd-daliadau ymuno â'r gweithlu, ac fe fyddai'r rhain yn ychwanegiad eto at nifer y gweithlu yn yr ardal, ond anodd iawn fyddai rhoi ffigur pendant ar hynny ar y pwynt yma.

1.3. Swyddi y ceisir amdanynt

- Hyd at 2013 trefn gydnabyddedig Llywodraeth Prydain ar gyfer adnabod ffigurau a manylion swyddi gwag, a'r mathau o swyddi roedd Ceiswyr Gwaith am eu cael, oedd trwy'r Canolfannau Gwaith – ac er nad oedd hyn yn rhoi ffigurau absoliwt o'r rhai oedd yn chwilio am waith, roedd yn cynnig sail ddibynadwy a swyddogol ar gyfer cymhariaeth ar draws ardaloedd a gwahanol rannau o Gymru a'r DG;
- Fe newidiodd Llywodraeth Prydain y drefn yn 2013, ac heb drefn ystadegol ddibynadwy arall mewn lle ni ellir priodi ffigurau'r Ceiswyr Gwaith (JSA) â'r swyddi

y ceisir yn y flwyddyn honno, na chwaith â'r swyddi gwag oedd ar gael ar eu cyfer;

- Gwybodaeth diwedd 2012 felly sy'n rhoi'r setiau ffigyrau dibynadwy olaf ar gael ac maent wedi eu cynnwys yn y ddogfen yma fel modd o ychwanegu at y darlun o'r gweithlu a'r economi;
- Roedd galw am 105 o swyddi yn Ardal Pwllheli; 80 yn Ardal Porthmadog; 75 yn Ardal Nefyn & Gogledd Llŷn; 50 yn Ardal Criccieth; 25 yn Ardal De Llŷn, a 10 yn Ardal Pen Llŷn - roedd felly alw am 345 swydd, 215 yn Llŷn a 130 yn Eifionydd;
- O ran mathau o swyddi, roedd galw am 110 swydd yn y categori Galwedigaethau Elfennol (e.e. labro, glanhau ac amrywiol weithgareddau eraill); 100 swydd Gwerthiant a Gofal Cwsmer; 35 swydd yn y Crefftau Sgilgar (megis seiri, plymwyr, trydanwyr ac amrywiol weithgareddau eraill); 30 swydd Gweithredu Peiriannau a Phrosesau; 25 swydd Gweinyddol ac Ysgrifenyddol; 20 swydd Gwasanaethau Personol (e.e. trin gwallt, harddwch, ffitrwydd ac amrywiol weithgareddau eraill); 10 swydd Rheolaeth ac Uwch Swyddogion; 10 swydd yn y Galwedigaethau Proffesiynol; 0 swydd Proffesiynol Perthynol a Thechnegol; a 5 swydd arall o ryw fath heb fanylu ymhellach;
- Roedd y dewisiadau gwaith yn amrywiol, ond gyda'r galw mwyaf am swyddi traddodiadol bob dydd - doedd neb e.e. yn chwilio am waith ym maes Technoleg, maes a ystyrir yn un gwerth uchel, a maes efo potensial i dyfu a chynnig cyfleoedd newydd am swyddi da.

Drafft

2. Swyddi a Strwythur Cyflogaeth

2.1. Nifer a mathau o swyddi ar gael

Swyddi gwag

- Cyfeirir yn Y Gweithlu Posib uchod at y newid fu yn nhrefn Llywodraeth Prydain o ran casglu a sefydlu gwybodaeth am swyddi gwag – gwybodaeth Canolfannau Gwaith diwedd 2012 felly oedd y wybodaeth ddibynadwy olaf y gellid ei defnyddio ar gyfer ystyried sefyllfa 2013;
- O ystyried y ffigyrau diwaith yn Ionawr 2013 (531), doedd dim digon o swyddi gwag i gwrdd â'r gofyn;
- 155 o swyddi oedd ar gael yn Llŷn ac Eifionydd ddiwedd 2012, o gymharu â 537 swydd wag yn Arfon, a 192 ym Meirionnydd – o dair Ardal Gwynedd felly, Llŷn ac Eifionydd oedd gyda'r nifer a'r gymhareb isaf o swyddi gwag;
- Yn Llŷn ac Eifionydd 1 swydd oedd ar gael ar gyfer pob 3.4 person diwaith; yn Arfon 1 swydd ar gyfer pob 2.8 person diwaith; ym Meirionnydd 1 swydd ar gyfer pob 3.5 person diwaith, ac yng Ngwynedd 1 swydd ar gyfer pob 3.1 person diwaith - fodd bynnag, roedd y sefyllfa ar gychwyn 2013 yn well yn ardaloedd Gwynedd nag yng Nghymru (4.0 person diwaith i bob swydd), a'r DG (4.1 person diwaith i bob swydd);
- Ardal Porthmadog oedd â'r nifer uchaf o swyddi gwag (75 swydd), sef bron i hanner y swyddi gwag yn Llŷn ac Eifionydd - roedd 42 swydd wag yn Ardal Pwllheli; 25 swydd wag yn ardal Criccieth; 10 swydd wag yn Ardal De Llŷn; 3 swydd wag yn unig yn Ardal Nefyn a Gogledd Llŷn, a 0 swydd wag o gwbl yn Ardal Pen Llŷn;
- O gymau'r swyddi gwag yn yr ardaloedd lleol gyda'r nifer Ceiswyr Gwaith lleol gwelir:
 - 75 swydd ac 80 Ceisydd Gwaith yn Ardal Porthmadog, sef diffyg 5 swydd;
 - 42 swydd a 105 Ceisydd Gwaith yn Ardal Pwllheli, sef diffyg 63 swydd;
 - 3 swydd a 75 Ceisydd Gwaith yn Ardal Nefyn & Gogledd Llŷn, sef diffyg 72 swydd;
 - 25 swydd a 50 Ceisydd Gwaith yn Ardal Criccieth, sef diffyg 25 swydd;
 - 10 swydd a 25 Ceisydd Gwaith yn Ardal De Llŷn, sef diffyg 15 swydd;
 - 0 swydd a 10 Ceisydd Gwaith yn Ardal Pen Llŷn, sef diffyg 10 swydd;
- Roedd y sefyllfa felly ar ei mwyaf ffafriol yn Ardal Porthmadog, gyda'r diffyg mwyaf o ran swyddi gwag ar gael yn Ardal Nefyn & Gogledd Llŷn ac Ardal Pwllheli, gyda diffyg amlwg iawn hefyd yn Ardal Pen Llŷn.

Mathau o swyddi ar gael

- O ran y mathau o swyddi ar gael ddiwedd 2012 roedd:
 - 9 swydd Galwedigaethau Elfennol ar gyfer y 110 person oedd yn eu ceisio;
 - 62 swydd Gwerthiant a Gofal Cwsmer ar gyfer y 100 oedd yn eu ceisio;
 - 11 swydd Creffttau Sgilgar ar gyfer y 35 oedd yn eu ceisio;
 - 4 swydd Rheolwyr ac Uwch Swyddogion ar gyfer y 10 oedd yn eu ceisio;
 - 0 swydd Gweithredu Peiriannau a Phrosesau ar gyfer y 30 oedd yn eu ceisio;
 - 0 swydd Gweinyddol ac Ysgrifenyddol ar gyfer y 25 oedd yn eu ceisio;

- fodd bynnag, doedd dim digon o geiswyr gwaith ar gyfer swyddi gwag Gwasanaethau Personol (49 swydd ac 20 ceisydd), nac yn y categori Proffesiynol Perthynol a Thechnolegol (9 swydd a 0 ceiswyr).
- Gwelir felly fod diffyg cydweddiad rhwng angen y ceiswyr gwaith a'r swyddi ar gael, a pheth diffyg cydweddiad hefyd rhwng y galw gan gyflogwyr a'r cyflenwad gweithwyr yn lleol, yn enwedig mewn meysydd gwerth uchel megis Technoleg.

Natur swyddi'r gweithlu

- O'r 9,200 o swyddi yn Llŷn ac Eifionydd yn 2013 roedd 59.3% yn rhai llawn amser a 40.7% yn rhai rhan amser - roedd y ganran llawn amser yma yn is nag yn ardaloedd eraill Gwynedd na'r sir, na Chymru (64.8%) na Phrydain (67.7%), ac yn yr un modd roedd y ganran rhan amser yn uwch yn Llŷn ac Eifionydd gyda Chymru efo 35.2% o'r gweithlu yn rhan amser, a Phrydain efo 32.3% yn rhan amser;
- Doedd y ffigyrau yma ddim yn cynnwys gweithwyr amaeth ar ffermydd.

2.2. Strwythur cyflogaeth

Ymhle mae'r gyflogaeth bresennol?

- Roedd oddeutu 9,200 yn cael eu cyflogi mewn mannau gwaith ar draws Llŷn ac Eifionydd yn 2013, oddeutu 4,900 yn cael eu cyflogi yn Llŷn, ac oddeutu 4,400 yn Eifionydd;
- Roedd y gyflogaeth fwyaf mewn mannau gwaith yn Ardal Porthmadog (2,700), Ardal Pwllheli (2,600), gydag oddeutu 1,700 yn Ardal Criccieth, ac oddeutu 1,000 yn Ardal De Llŷn, a 900 yn Ardal Nefyn & Gogledd Llŷn;
- Ardal Pen Llŷn oedd â'r gyflogaeth isaf (400);
- Roedd cyflogaeth arwyddocaol hefyd mewn cymunedau llai e.e. oddeutu 1,000 yn Llanystumdwy; 500 yn Abersoch; 300 yn Nefyn, 400 yn Abererch, a 300 yn Llanaelhaearn.
- O edrych ar y boblogaeth oed gwaith ar gyfer yr ardaloedd lleol ochr yn ochr â'r ffigyrau cyflogaeth uchod gwelir darlun o fwch cyflogaeth yn rhan fwyaf o'r ardaloedd - ar y llaw arall roedd sefyllfa eithaf cytbwys yn Ardal Porthmadog gyda chyflogaeth o tua 2,700 a phoblogaeth oed gwaith o 2,633 (sefyllfa o +67);
- Roedd cryn fwch cyflogaeth yn yr Ardaloedd eraill - Ardal Nefyn & Gogledd Llŷn oedd gyda'r bwlch mwyaf (-2,135), ac wedyn yn eu trefn: Ardal De Llŷn (-1,327), Ardal Pen Llŷn (-1,260), ardal Criccieth (-1,052), ac Ardal Pwllheli (-480);
- Defnyddir y cymariaethau yma fel dull o amlygu cryfder neu wendid strwythurol yn unig, yn yr economi ac mewn ardaloedd lleol penodol - gan bwysleisio na fyddai disgwyl gweld cyflogaeth 100% mewn unrhyw economi marchnad rydd, gan gynnwys Llŷn ac Eifionydd.
- Mae'r canfyddiad yn un pendant – sef gwendid strwythurol a methiant y farchnad;
- Amcangyfrifir hefyd fod oddeutu 2,739 o weithwyr yn teithio tu hwnt i'r ardal i weithio yn 2013.
- Wrth gwrs, rhaid cofio nad oes ffiniau o gwmpas Llŷn ac Eifionydd - mae trigolion yn teithio i fannau eraill i weithio, ac eraill yn teithio i mewn i'r ardal i'w gwaith;

- Ar yr un pryd, wrth i ddiwygiadau i'r trefniadau Lles ddod yn weithredol bydd pwysau cynyddol ar rai ar Fudd-daliadau i ganfod gwaith – a gyda 1,395 yn Llŷn ac Eifionydd yn derbyn Budd-daliadau Allan o Waith mae'n amlwg fod yr economi leol yn wynebu cryn her os am ddarparu ar eu cyfer.

2.3. Sectorau gwaith

Y sector gyhoeddus a'r sector breifat

- Mae dau dull gwahanol o gyfrifo maint y sector gyhoeddus a'r sector breifat;
- Mae un dull yn defnyddio'r sectorau diwydiannol Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Addysg a Iechyd efo'i gilydd fel proxy ar gyfer canfod maint y sector gyhoeddus, ond mae problem amlwg, sef fod y data yn cynnwys busnesau preifat hefyd;
- Mae'r dull arall yn seiliedig ar arolwg o weithwyr ardal i'w dosbarthu i'r sector briodol gyda sicrwydd cywirdeb o 95% - dyma'r dull sydd wedi ei fabwysiadu yma, ond gan fod y sail ar ardal ddaearyddol Dwyfor/ Meirionnydd a'r sefyllfa'n eithaf tebyg yn y ddwy ardal defnyddir y canrannau i gael at y darlun ar gyfer Llŷn ac Eifionydd;
- Dengys y data ar gyfer 2013 fod 21.5% o weithwyr Dwyfor/Meirionnydd yn y sector gyhoeddus, gyda 78.5% yn y sector breifat;
- Gwelir felly fod maint y sector gyhoeddus yn yr ardal yn is nag yn Arfon (31.3%), Gwynedd (26.3%) a Chymru (29.6%) - gyda'r sector breifat felly yn uwch yn yr ardal nag yn Arfon (68.7%), Gwynedd (73.7%), a Chymru 70.4%;
- Gan fod amrywiaeth ac ystod o swyddi ar bob lefel cyflog yn nodwedd o'r sector gyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys nifer o swyddi da ar lefelau cyflog canolig ac uwch, ac yn sicr yn uwch na'r cyflog byw, mae presenoldeb is y sector gyhoeddus o fewn yr ardal yn rhwym o effeithio ar y cyfleon cyflogaeth, ac ar lefelau cyflog a gwariant o fewn yr economi.

Sectorau diwydiannol

- O'r 18 categori diwydiannol swyddogol roedd pob un o'r sectorau yn cael eu cynrychioli yn Llŷn ac Eifionydd yn 2013 o ran mentrau a chyflogaeth;
- Fodd bynnag, roedd maint eu presenoldeb yn yr economi leol yn amrywio'n fawr – y sail ddaearyddol unwaith eto ar gyfer cyfrifo mentrau ar draws y gwahanol sectorau ydi ardal Dwyfor/Meirionnydd a gellir gwneud cymariaethau trwy ddefnyddio'r canrannau, gan dderbyn rhaniad cyfartal yn y nifer mentrau rhwng y ddwy ardal i bwrpas amlygu'r darlun bras yn Llŷn ac Eifionydd.

Sectorau diwydiannol a mentrau

- Y sector fwyaf o bell ffordd felly oedd Amaeth, Coedwigaeth a Physgota gyda 26.9% o holl fentrau'r ardal yn y sector – roedd presenoldeb y sector yma yn drawiadol o gymharu efo Arfon (8.7% o fentrau yn y sector), a Chymru (12.6%);
- Roedd presenoldeb y sector Llety a Bwyd yn amlwg gyda 12.3% o holl fentrau'r ardal yn y sector – presenoldeb uwch nag Arfon (9.9%), a Chymru (8.1%);
- Roedd canran presenoldeb y sector Adeiladwaith ar 9.6% o holl fentrau'r ardal hefyd yn uwch nag Arfon (8.9%), ond fymryn yn is na Chymru (9.8%);
- Roedd 11.1% o fentrau'r ardal yn y sector Mânwerthu – llai o bresenoldeb felly yn yr economi nag yn Arfon (13.3%), a Chymru (11.8%);

- Y sector wanaf o ddigon o gymharu ag ardaloedd eraill oedd Gwybodaeth a Chyfathrebu gydag 1.9% o fentrau'r ardal yn y sector yma, sef sector ystyrir yn un gwerth uchel – roedd 4.4% o fentrau Arfon yn y sector yma, a 3.5% o fentrau Cymru;
- Roedd sector gwerth uchel arall hefyd yn isel ei phresenoldeb, sef y sector Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnoleg gyda 4.9% o fentrau yn y sector o gymharu ag Arfon (7.6%), a Chymru (9.2%);
- Roedd y Celfyddydau, Adloniant, Hamdden a Gwasanaethau Eraill yn cynrychioli 5.1% o fentrau'r ardal – tipyn is nag Arfon (8.3%), ac is na Chymru (6.5%);
- Roedd yr 11 sector arall hefyd yn is eu presenoldeb o fewn economi'r ardal ar sail canran y mentrau o fewn y sectorau hynny – felly 3 sector yn unig oedd â phresenoldeb uwch yn yr ardal, sef Amaeth, Coedwigaeth & Physgota, a Llety & Bwyd, y ddwy sector yn amlwg iawn gyda phresenoldeb gref, gyda'r sector Adeiladwaith rhyw fymryn yn gryfach o ran canran mentrau nag Arfon;
- Yn 2013, felly, o safbwynt mentrau o fewn yr economi leol roedd yr ardal yn gref o ran mentrau mewn sectorau ystyrir yn rhai gwerth isel, ac yn wan yn y sectorau ystyrir yn rhai gwerth uchel.

Sectorau diwydiannol a chyflogaeth

- Er cryfder amlwg y sector Amaeth, Coedwigaeth a Physgota o safbwynt y ganran mentrau yn yr ardal, dydi'r dadansoddiadau sector ddim yn cynnwys cyflogaeth ar ffermydd, ac felly dim ond 0.2% o gyflogaeth Llŷn ac Eifionydd nodir o fewn y sector hon – ond wrth edrych ar Arolwg Amaethyddol Cymru 2002-2011 adnabuwyd oddeutu 1,459 o ffermwyr a 414 o weithwyr amaeth ar ffermydd yn Llŷn ac Eifionydd, sef cyfanswm cyflogaeth o 1,873 yn y sector;
- Y sector gyda'r gyflogaeth fwyaf o ddigon yn 2013 oedd Llety a Bwyd, yn cyflogi 2,100 o weithwyr sef 22.5% o gyflogaeth yr ardal – uwch na Meirionnydd (18.7%) a chanran llawer uwch nag Arfon (9.8%, ond efo 3,100 o weithwyr), a Chymru (7.5%);
- Roedd y sector Mânwerthu hefyd yn gryf o ran nifer a chanran y gyflogaeth, sef yn cyflogi 1,400 o weithwyr yn cyfateb i 15.8% o gyflogaeth yr ardal – roedd hyn yn uwch na Meirionnydd (9.1%), ac yn ganran uwch nag Arfon (11.5%) a Chymru (10.8%), ond rhaid nodi fod nifer uwch, sef 3,600 yn cael eu cyflogi yn y sector yn Arfon;
- Er nad oedd y sector Iechyd yn gryf o ran presenoldeb mentrau yn yr economi leol (4.7%), mae'n werth nodi fod 12.1% o gyflogaeth yr ardal o fewn y sector yma, sef 1,100 o swyddi – ar yr un pryd roedd y sector yn llawer cryfach yn Arfon (21.0% o'r gyflogaeth a 6,600 o weithwyr), a Chymru (16.6%);
- Fe welwyd fod y sector Celfyddydau, Adloniant, Hamdden & Gwasanaethau Eraill dipyn yn is ei phresenoldeb o ran mentrau, ond roedd yn cyflogi 700 o weithwyr, sy'n cyfateb i 8.1% o gyflogaeth Llŷn ac Eifionydd – canran uwch na Meirionnydd (6.1%), ac Arfon (3.6%, ond efo 1,100 o weithwyr), a Chymru (4.2%);
- Roedd 4.9% o'r gyflogaeth yn y sector Cyfanwerthu, sef 500 gweithiwr, ac roedd y ganran yma oddeutu dwywaith cymaint â throsodd y ganran ym Meirionnydd (2.3%), Arfon (1.4%) a Chymru (2.7%) - roedd nifer uwch yn cael eu cyflogi yn y sector hon hefyd nag yn Arfon (400) na Meirionnydd (200);
- O ran y sector Adeiladwaith, er bod presenoldeb eithaf cryf o ran mentrau, 5.6% o'r holl gyflogaeth sef 500 gweithiwr oedd yn cael eu cyflogi yn yr ardal – roedd y

ganran yn is nag ym Meirionnydd (6.2%) ond yn dipyn uwch nag yn Arfon (3.2%, oedd fodd bynnag yn cyflogi 1,000), ac yn uwch na Chymru (4.3%);

- Y sectorau gwanaf o ran y gyflogaeth oedd Gwybodaeth a Chyfathrebu yn cyflogi 100 sef 0.6% o gyflogaeth yr ardal o gymharu ag Arfon (2.3% a 700 swydd) a Chymru (1.8%) – trwy gymharu ardaloedd eto roedd y sectorau Eiddo (0.9%) a Chyllid a Siwrans (1.2%) yn eithaf gwan hefyd, gyda'r sector Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol hefyd yn is ar 3.0% a 300 swydd nag Arfon (4.4% a 1,400 swydd), a Chymru (4.8%);
- Eto gwelir y gogwydd pendant yn Llŷn ac Eifionydd tuag at y sectorau ystyrir yn rhai gwerth isel ond sy'n darparu cyflogaeth sylweddol, gyda chyflogaeth isel yn y sectorau hynny ystyrir yn rhai gwerth uchel gyda chyflogau da.

2.4. Gweithleoedd a'u cyflogaeth

Maint mentrau

- Roedd 88.1% o fentrau Dwyfor/Meirionnydd (3,860) yn rhai Meicro yn cyflogi 0-9 gweithiwr, canran tipyn uwch nag Arfon (78.8%), ac ychydig uwch na Chymru (82.6%), na'r DG (82.7%);
- Roedd 10.5% o fentrau'r ardal (405) yn rhai Bach yn cyflogi 10-49 o weithwyr – y tro yma canran dipyn is nag Arfon (17.5%), Cymru (14.6%) na'r DG (13.9%);
- 1.4% yn unig o fentrau'r ardal oedd o faint Canolig, a chanran rhy fychan i'w chyfrifo yn fentrau Mawr (0.0%) – roedd 3.2% o fentrau Arfon yn rhai Canolig (0.4% Mawr); 2.9% Cymru yn Ganolig (0.4% Mawr); 2.9% DG yn Ganolig (0.5% Mawr);

Cyflogaeth

- Gan ddibynnu ar ffigyrau 2012 (y rhai olaf geir), gwelir fod mannau gwaith Meicro yr ardal yn cyflogi oddeutu 2,800; gweithleoedd Bach yn cyflogi oddeutu 3,900; gweithleoedd Canolig yn cyflogi oddeutu 2,100 - prin mewn cymhariaeth oedd y gweithwyr mewn mannau gwaith Mawr, gyda dynodiad 0 yn yr ystadegau oherwydd sensitifrwydd masnachol;
- Er presenoldeb sylweddol mentrau Meicro, yn cyflogi oddeutu 30.4% o'r gweithlu, mae mwy o weithwyr Llŷn ac Eifionydd (42.4%) mewn mannau gwaith Bach, gyda 22.8% hefyd mewn mannau gwaith Canolig;
- Ar yr un pryd, mae'r ganran sy'n gweithio mewn mentrau maint Meicro (30.4%) yn sylweddol uwch nag yn Arfon (14.1%); Gwynedd (19.4%); Cymru (15.6%), a Phrydain (14.2%);
- Mae'r patrwm yn debyg o ran y gweithwyr mewn mannau gwaith Bach, gyda'r 42.4% yn Llŷn ac Eifionydd i'w gymharu â 29.3% yn Arfon; 34.7% yng Ngwynedd; 30.1% yng Nghymru, a 27.8% ym Mhrydain;
- Mae'r ganran o weithwyr mewn mentrau Canolig yn gymharol is yn Llŷn ac Eifionydd – ond mae'r canrannau yn eithaf agos i'w gilydd ar draws yr ardaloedd cymhariaeth o 22.8% yn Llŷn ac Eifionydd, i 28.0% ym Mhrydain yn y pegwn arall;
- Amcangyfrifir o edrych ar wahanol ffynonellau mai rhyw 4.4% o weithwyr Llŷn ac Eifionydd sydd mewn mentrau Mawr, a hynny yn sylweddol is nag Arfon (32.9%); Gwynedd (21.8%); Cymru (27.2%), a Phrydain (28.0%);

- Mae'n anorod fod dibyniaeth economi Llŷn ac Eifionydd ar y mentrau meicro a bach, a'r diffyg gweithleoedd maint canolig a mawr, yn dylanwadu ar faint y gyflogaeth o fewn yr ardal ac ar bosibiliadau twf i gwrdd â gofynion cyflogaeth heddiw ac i'r dyfodol – ac yn anffodus, o gofio hefyd gryfder presenoldeb y sectorau gwerth isel, mae'n amlwg nad ydi'r mentrau meicro a bach yma, er eu lluosogrwydd, yn creu'r mas critigol sydd ei angen mewn sectorau gwerth uchel sy'n talu'n dda.

2.5. Eiddo busnes trefi Llŷn ac Eifionydd

- Edrychwyd ar restrau treth busnes Gwynedd – roedd y nifer uchaf o eiddo busnes yn nhref Pwllheli (388 eiddo), a thref Porthmadog (372 eiddo), gyda 170 eiddo busnes yn nhref Nefyn, a 152 yn nhref Criccieth;
- Ar raddfa Gwynedd gyfan roedd 92.4% o'r eiddo busnes mewn defnydd – roedd trefi Criccieth (94.7%), Pwllheli (94.6%) a Phorthmadog (94.1%) i gyd gyda chanrannau uwch o eiddo busnes mewn defnydd na'r sir, ac felly gyda llai o eiddo busnes gwag na chanran Gwynedd;
- Roedd Nefyn gyda chanran arwyddocaol is o eiddo busnes mewn defnydd (89.4%), ac felly roedd 10.6% o'r eiddo busnes yn wag, sef 18 eiddo gwag gydag effaith negyddol amlwg mewn tref fechan, ac yn cynrychioli cyfle yn cael ei gollu o ran cynnal cyflogaeth mewn ardal o fwllch cyflogaeth sylweddol.

3. Sefyllfa Ffyniant yr Ardal

3.1. Gwybodaeth Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2011 (MALIC)

- Mae MALIC yn mesur ardaloedd cyfrif o tua 1,500 o drigolion ar draws 8 maes gweithgaredd - yn Llŷn ac Eifionydd mae 17 ardal gyfrif (o gymharu ag 20 Ward);
- O ran y darlun cryno o nifer ardaloedd cyfrif MALIC ar draws yr 8 maes gweithgaredd, ychydig yn Llŷn ac Eifionydd sydd yn y 30% mwyaf amddifad yng Nghymru – cyfanswm o 35 ardal gyfrif ar draws yr 8 maes yn Llŷn ac Eifionydd o gymharu â 63 ardal yn Arfon, a 43 ym Meirionnydd, a'r ffigyrau yn sicr ddim yn ddigon i amlygu'r ardal fel un o angen ar y rhestrau cenedlaethol;
- Serch hynny o'r 17 ardal gyfrif yn Llŷn ac Eifionydd mae pob un yn ymddangos yn y 30% gwaethaf mewn un neu fwy o feysydd;
- Mae 13 o'r 17 ardal gyfrif yn y 10% gwaethaf yng Nghymru mewn un neu ddau o'r meysydd gweithgaredd;
- Fodd bynnag, does yr un ardal gyfrif yn Llŷn ac Eifionydd yn ymddangos yn y 10% na'r 30% gwaethaf o ran meysydd Incwm na Chyflogaeth;
- Mae edrych ar ardaloedd mwy lleol trwy gyfrwng daearyddiaeth y Cynllun Cyflogaeth yma, a setiau eraill o wybodaeth wedi eu seilio ar wardiau, yn cynnig darlun tra gwahanol o sefyllfa ffyniant Llŷn ac Eifionydd – a darlun cefndirol mwy perthnasol i'r maes cyflogaeth

3.2. Incwm blynyddol aelwydydd

- Yn 2013 o'r 12,624 aelwyd yn Llŷn ac Eifionydd roedd 18.4% efo incwm o lai na £10,000 y flwyddyn, sef 2,322 aelwyd;
- Roedd y ganran yma dros ddwywaith ffigur Cymru (8.9%) a'r DG (7.3%) – roedd yn uwch hefyd nag Arfon (17.2%) na chanran Gwynedd (18.0%), er ychydig yn is na Meirionnydd (19.1%);
- Y wardiau efo'r aelwydydd incwm isaf, h.y. yn dangos canran uwch na'r cyfartaledd ardal o aelwydydd efo incwm o dan £10,000 y flwyddyn, oedd Gogledd Pwllheli (23.2%), Tremadog (22.5%), Llanbedrog (21.5%), Llanaelhaearn (21.0%), Botwnnog (20.7%), Dwyrain Porthmadog (20.7%) a De Pwllheli (20.5%);
- Dros gyfnod y Dirwasgiad a pholisïau Llymder ym Mhrydain (2009-2013) gwelodd Llŷn ac Eifionydd ostyngiad o 13.1% yn incwm canolrif aelwydydd, sef colled o £3,253 - gostyngiad mwy nag a brofwyd yn Arfon (-8.1%) na Gwynedd (-11.1%), ond rhyw ychydig yn well na Meirionnydd (-14.2%);
- Yn nhermau Cymru a'r DG roedd canran y gostyngiad incwm rhwng 2009-2013 yn Llŷn ac Eifionydd ddwywaith canran y gostyngiad yng Nghymru (6.6%) a'r DG (6.5%).
- Wrth ystyried y ffigyrau incwm a thlodi dylid hefyd gadw mewn cof y ganran uchel o drigolion dros 65 oed yn yr ardal, ac hefyd effaith niferoedd y busnesau meicro.

3.3. Tlodi

- Y diffiniad cydnabyddedig o dlodi ydi byw ar incwm llai na 60% o incwm canolrifol Prydain, sef £16,505 yn 2013.
- Roedd 4,817 aelwyd, sef 38.2% o holl aelwydydd Llŷn ac Eifionydd, yn byw o dan y trothwy tlodi yma yn 2013 - canran uwch nag yn Arfon (35.6%), Gwynedd (37.3%), Cymru (27.6%) na Phrydain (23.6%), ond eto sefyllfa rhyw ychydig yn well na Meirionnydd (39.3%);
- O ran ardaloedd lleol Llŷn ac Eifionydd y 3 ardal gyda'r ganran uchaf o aelwydydd dan y trothwy tlodi oedd Ardal Pwllheli (21.8%), Ardal Porthmadog (19.2%), ac Ardal Nefyn & Gogledd Llŷn (18.6%);
- Y wardiau unigol o fewn yr ardal gyda'r canrannau uchaf o aelwydydd o dan y trothwy tlodi oedd (yn ôl eu trefn): De Pwllheli (44.8%); Llanbedrog (43.3%); Tremadog (42.8%), Dwyrain Porthmadog (41.9%); Llanaelhaearn (41.7%), Botwnnog (41.5%), a Gogledd Pwllheli (41.1%).

3.4. Y gallu i brynu tŷ

- Wrth ystyried ffyniant ardal a'i thrigolion mae gallu'r incwm dderbynnir i sicrhau hanfodion bywyd yn ffactor berthnasol – gyda'r gallu i brynu tŷ yn ffactor allweddol, ac fe edrychwyd felly ar ystadegau prisiau tai fel cyd-destun wrth ystyried lefelau incwm yr ardal;
- Yn Llŷn ac Eifionydd yn 2013 roedd angen 7.7 gwaith yr incwm canolrif i alluogi person neu deulu i brynu tŷ – roedd hyn yn cymharu â 5.6 gwaith yr incwm yn Arfon; 6.3 gwaith yr incwm ym Meirionnydd, a 6.1 gwaith yr incwm yng Ngwynedd gyfan;

- Roedd hyn yn golygu felly fod 67.8% o gartrefi Llŷn ac Eifionydd tu hwnt i gyrraedd y farchnad leol, gyda'r ganran yn rhai wardiau uwchben 80% - yn wir 91.9% o dai wedi eu prasio allan o'r farchnad leol yn Llanbedrog; 91.2% yn Abersoch; 85.4% yn Aberdaron; 82.5% yng Ngorllewin Porthmadog, ac 81.0% yng Nghriccieth. Yn y pegwn arall roedd 2 ward o dan 50% - sef 39.8% o gartrefi yng Nghlynnog, a 48.9% yn Nhudweiliog;
- O edrych ar ganolrif incwm wardiau Llŷn ac Eifionydd ochr yn ochr â chyfartaledd prisiau tai o fewn yr un ardal, gwelir fod maint yr incwm oedd ei angen ar gyfer prynu tŷ yn y gwahanol ardaloedd yn amrywio o 5.3 gwaith yr incwm yng Nghlynnog i 15.3 gwaith yr incwm yn Llanbedrog;
- Yn ôl canllawiau'r benthycwyr morgais felly, mae'r ffigyrau yma yn awgrymu nad oedd unman yn Llŷn ac Eifionydd gydag incwm canolrif digonol i brynu tŷ lleol yn 2013. Ond wrth gwrs, ar yr un pryd mae unigolion o fewn ardaloedd Llŷn ac Eifionydd yn parhau i fedru prynu tai yn lleol. Darlun ystadegol sydd yma, ac yn ffordd o amlygu gallu neu anallu cyllidol cyffredinol ardal – ond dydi'r ffigyrau ddim yn darlunio sefyllfa absoliwt, ac ni ddylid eu dehongli felly;
- Ar yr un pryd mae'n amlygu sefyllfa o dlodi ar raddfa ddaearyddol eang yn Llŷn ac Eifionydd, ac nid mewn pocedi, wardiau neu leoliadau cyfyngedig yn unig.

Drafft

Eitem 7

ADRODDIAD I'R CABINET

28 Mehefin 2016

Aelod Cabinet: Cyngorydd Dafydd Meurig

Pwnc: Lon Las Ogwen

Swyddog cyswllt: Dafydd Wyn Williams – Pennaeth Adran Rheoleiddio [dros dro]

Y penderfyniad a geisir/pwrpas yr adroddiad

Cefnogaeth y Cabinet i wireddu'r cynllun yn y flwyddyn ariannol 2016/17

Barn yr aelod lleol

Dim yn fater lleol

Cyflwyniad

1. CEFNDIR

- 1.1 Bu trafodaethau gyda Aelodau Cabinet yn ol yn Nhachwedd 2015 ynglŷn â'r bwriad i ddatblygu twnnel a strwythurau eraill sy'n rhan o'r gyn rheilffordd yn Nhregarth fel rhan o lwybr Lôn Las Ogwen. Roedd awydd ar y pryd i gefnogi'r bwriad mewn egwyddor ond gofynnwyd am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r elfen ariannol a'r budd fyddai'n deillio o weithredu'r cynllun. Hefyd, gan fod Lonydd Glas ar y pryd wedi ei rhestru fel toriad posibl roedd yr Aelodau yn awyddus i gael sicrwydd ynglŷn â phenderfyniad y Cyngor Lawn ar y toriadau'n Mawrth 2016, cyn penderfynu ar y mater. Erbyn hyn mae'r sefyllfa'n gliriach, ac yn sgil yr ymgynghoriad Her Gwynedd ar y toriadau posibl penderfynwyd peidio torri'r gyllideb ar gyfer rheoli a chynnal y Lonydd Glas.

2. ARIANNU'R PROSIECT A CHYNNAL A CHADW

- 2.1 Y bwriad ydi creu cymal newydd, 800m o hyd er mwyn cwblhau llwybr Lôn Las Ogwen rhwng Bangor a Bethesda ac ymlaen i Gapel Curig. Er yn gymal byr mae'r gwaith yn cynnwys diogelu craig ar ochr yr hafn, goleuo'r twnnel sy'n 275m o hyd a chamau i ddiogelu defnyddwyr ar y draphont dros yr afon Ogwen. Yn ychwanegol rhaid gosod wyneb sy'n addas ar gyfer cerddwyr a beicwyr.
- 2.2 Mae'r Adran Rheoleiddio wedi llwyddo yn ystod 2015 / 16 i adnabod adnoddau un-tro ac wedi ymgynhori gyda'r Aelodau'r Cabinet perthnasol a'r Pennaeth Cyllid, wedi neulltuo £200,000 mewn cronfa adrannol, wedi'i glustnodi ar gyfer ei ddefnyddio i ariannu cyfraniad y Cyngor tuag at y cynllun yma ac wedi galluogi'r Adran i ddenu £230,000 o grant gan Gronfa Drafnidiaeth Leol, Llywodraeth Cymru.

- 2.3 Mae gennym becyn ariannol gwerth £430,000 wedi ei sicrhau ar gyfer y cynllun. Rhaid wrth gwrs aros i weld canlyniad y broses caffael i gael y gwir ffigyrau ond rhagwelir bod y gyllideb yn ddigonol i weithredu'r cynllun.
- 2.4 Yr elfen arall yw'r costau refeniw ar gyfer cynnal a chadw. Mae cyllid cynnal y rhwydwaith Lonydd Glas yn £17,000 o fewn cyllidebau'r Uned Cefn Gwlad a Mynediad. Dylid nodi bod y gyllideb yma wedi ei gynnwys o fewn cynigion Her Gwynedd. Roedd 37.6% o'r rhai oedd wedi ymateb i'r ymgynghoriad yn cefnogi gwarchod y gyllideb a'r penderfyniad terfynol oedd peidio cynnwys y swm o fewn y rhaglen toriadau.
- 2.5 Defnyddir y gyllideb cynnal yn bennaf ar gyfer rheoli tyfiant tymhorol, ymateb i effaith tywydd garw, casglu ysbwriel ac achosion o fandaliaeth. Credir na fyddai cynnwys ardal y twunnel ynddo'i hun yn ormod o faich ar y gyllideb ond beth sy'n arbennig yn yr achos yma yw'r costau sy'n gysylltiedig â goleuo'r twunnel.
- 2.6 Amcangyfrifir bydd costau sy'n gysylltiedig â'r golau oddeutu £1,200 y flwyddyn, sef £600 am y trydan a £600 ar gyfer archwilio. Rhagwelir na fydd angen adnewyddu cyfarpar am sawl blwyddyn ond yn anffodus rhaid cymryd effaith fandaliaeth i ystyriaeth. Y bwriad ydi i gael cytundeb gyda'r Uned Goleuo Stryd y Cyngor i ofalu am y system oleuo.
- 2.7 Mae Cyngorau Cymuned Llandygai a Bethesda wedi datgan eu parodrwydd i gyfarfod costau cynnal gan gynnwys y costau goleuo. Gellir cytuno ar lefel y cyfraniad a threfniadau pan geir cadarnhad o'r costau blynyddol sydd ynghlwm a'r goleuo.

3. BUDD FYDD YN DEILLIO O WEITHREDU'R CYNLLUN

- 3.1 Mae datblygiad Lôn Las Ogwen dros y blynyddoedd diweddar wedi digwydd oherwydd brwdfrydedd a chefnogaeth y gymuned leol ac ers agor y cymal diweddaraf yn 2014 derbyniwyd lluo o ymholiadau yn gofyn , "pryd mae'r twunnel yn agor".
- 3.2 Yn ddiweddar mae Cyngorau Cymuned Bethesda a Llandygai wedi datgan eu bod yn awyddus iawn i weld y cymal drwy'r twunnel yn cael ei gwblhau ac wedi datgan parodrwydd i gyfrannu tuag at y costau cynnal.
- 3.3 Cyfeirir hefyd at ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn 2012, bryd hynny roedd 94% o'r ymatebion yn cefnogi'r bwriad i greu llwybr rhwng Tregarth a Bethesda. Dywedodd 79% eu bod yn fodlon defnyddio'r twunnel os byddai yn cael ei oleuo. Mae offer cyfri ar y llwybr yn dangos dros 100,000 o siwrnai ar y Lon Las yn flynyddol.
- 3.4 Mae'n amlwg fod cefnogaeth leol i'r prosiect ac ymwybyddiaeth o'r buddion canlynol a ddaw o'i weithredu:

- **Teithio llesol** : mae deddf Teithio Lesol 2015 yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau lleol i ddarparu adnoddau sy'n caniatáu i'r cyhoedd i gerdded a beicio i fan gwaith, i ysgol neu goleg, i dderbyn gwasanaeth cyhoeddus megis meddygfa, swyddfa bost, llyfrgell ayb. Drwy gwblhau'r Lon Las drwy'r twnnel mae trigolion Bethesda a'r cyrion (poblogaeth o oddeutu 24,000) y gallu manteisio ar adnodd i deithio heb ddefnyddio cerbyd sy'n dod a buddion o ran lles yr unigolyn a'r amgylchedd. Wrth weithredu'r cynllun mae'r Cyngor yn cwrdd ag amcanion Deddf Teithio Lesol.
- **Diogelwch**: gan nad oes cysylltiad uniongyrchol rhwng dau ran y Lon Las ar hyn o bryd rhaid i ddefnyddwyr ddilyn y briffordd rhwng Tregarth a Bethesda. Byddai llwybr uniongyrchol drwy'r twnnel yn lleihau'r risg o ddamwain rhwng defnyddwyr y Lon Las a thraffig ar y briffordd.
- **Llesiant / hamdden** : mae'r rhwydwaith Lonydd Glas eisoes yn adnodd sy'n cael defnydd helaeth gan drigolion lleol sy'n dymuno cadw'n heini. Mae'r dystiolaeth feddygol yn dangos bod gweithgaredd corfforol cymedrol fel cerdded a beicio yn arwain at wella iechyd corfforol a meddyliol. Byddai datblygu'r twnnel yn darparu gwell adnodd sy'n hwylus i drigolion Tregarth a Bethesda gan gynnwys aelodau clybiau a chymdeithasau chwaraeon fel clwb Rygbi Bethesda sydd gerllaw'r llwybr presennol. Credir bod y datblygiad yn cyd-fynd ag amcanion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sydd yn gysylltiedig â Chymru iachach a chymunedau cydlynol.
- **Yr economi / Twristiaeth** : mae'r Cyngor a Chroeso Cymru yn canolbwyntio ymdrechion marchnata ar y sector awyr agored gyda cherdded a beicio yn flaenllaw yn yr ymgyrchoedd. Mae gan Lon Las Ogwen y potensial i fod yn gyfrwng effeithiol o ddenu cerddwyr a beicwyr i Fethesda ac ymlaen i Nant Ffrancon a llyn Ogwen. Byddai datblygu'r twnnel a'r draphont nid yn unig yn hwyluso teithio gan ymwelwyr ar droed a beic ond maent yn atyniadau ynddo hunain i'w gwerthfawrogi fel rhan o dreftadaeth ddiwydiannol ardal Bethesda.

4. CASGLIAD AC ARGYMHELLIAD

- 4.1 Mewn ymateb i gais yr Aelodau am wybodaeth ychwanegol am y cynllun gellir datgan bod gennym :
- Cyllid wedi ei sicrhau ar gyfer gweithredu'r cynllun o fewn y flwyddyn ariannol bresennol.
 - Sicrwydd o gyllideb refeniw yn sgil cefnogaeth Pobol Gwynedd i warchod cyllideb y Lonydd Glas ac ymrwymiad gan y Cyngorau Cymuned i gyfrannu at y costau cynnal / goleuo.

- Cefnogaeth i'r cynllun gan y gymuned leol a'u cynrychiolwyr a gwerthfawrogiad o'r budd o ran lles, iechyd a'r economi fydd yn deillio o weithredu'r cynllun.

Rhesymau dros argymell y penderfyniad

Gofynnaf i'r Cabinet gefnogi'r cynllun i'w weithredu fel rhan o raglen gyfalaf yr Adran Rheoleiddio yn 2016 /17 gan ddefnyddio'r grant o'r Gronfa Trafnidiaeth a chyllid adrannol sydd wedi ei adnabod at ddibenion y prosiect.

Barn y swyddogion statudol

Y Prif Weithredwr: Mae'n dda gweld bod y pecyn ariannu ar gyfer y cynllun hwn yn ei le bellach ac y gellir symud ymlaen."

Y Swyddog Monitro: Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

Y Pennaeth Cyllid: Cadarnhaf, wedi ymgynghori'n briodol gyda'r Aelodau Cabinet perthnasol yn ystod 2015/16, fod £200,000 eisoes wedi'i neilltuo i'r perwyl hyn gan yr Adran Rheoleiddio. Nodaf fod hynny wedi galluogi'r Cyngor i fanteisio ar grant o £230,000 gan Lywodraeth Cymru i gwblhau'r cynllun. Croesawir y cyfle yma i wella asedau Gwynedd a darparu budd i ddefnyddwyr Lôn Las Ogwen. Gwerthfawrogaf hefyd y cynigion gan Gyngorau Cymuned Bethesda a Llandygai i gyfrannu tuag at gostau cynnal y lôn a'r twnnel, fydd yn lleddfu ychydig ar ymrwymiad referniw perthnasol y Cyngor yn y maes.

Atodiadau: Dim

Eitem 8

CYFARFOD	Cabinet
DYDDIAD	28 Mehefin 2016
TEITL	Trosolwg Perfformiad Cyngor Gwynedd 2015/16 - meysydd Plant a Phobl Ifanc, Y Gymraeg, Cyngor Effeithiol ac Effeithlon, Cynllunio Ariannol a'r Amgylchedd.
PWRPAS	Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad
AWDUR	Y Cynghorydd Dyfed Edwards
SWYDDOG CYSWLLT	Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol

1.0 Cyflwyniad

- 1.1 Yn unol â chyfundrefn rheoli perfformiad y Cyngor, cyflwynir trosolwg o berfformiad y Cyngor hyd yma yn 2015/16. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar Blant a Phobl Ifanc, Y Gymraeg, Cyngor Effeithiol ac Effeithlon, Cynllunio Ariannol, a'r Amgylchedd sy'n rhan o bortffolio'r aelodau Cabinet canlynol:

Y Cynghorydd Gareth Thomas
Y Cynghorydd Mair Rowlands
Y Cynghorydd Peredur Jenkins
Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn
Y Cynghorydd John Wynn Jones
Y Cynghorydd Dafydd Meurig

- 1.2 Mae'r adroddiad yn cyfarch y cynlluniau trawsnewidiol sydd yn y cynllun strategol yn ogystal ag yn tynnu sylw at y mesurau perfformiad sydd yn adlewyrchu gwaith dydd i ddydd y Cyngor.

2.0 Rhesymau dros argymell y penderfyniad

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

3.0 Prif negeseuon

- 3.1 Perfformiad cadarnhaol ym maes Plant a Phobl Ifanc.
- 3.2 Gwaith positif i ddeall sefyllfa'r iaith Gymraeg wedi digwydd o fewn gwasanaethau ac ysgolion y Sir fel rhan o brosiectau maes Y Gymraeg, a gwelwyd cynnydd yng nghanran y disgyblion sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg a dilyniant y Gymraeg mewn ysgolion uwchradd.
- 3.3 Trefniadau llywodraethu wedi cryfhau a gwell effeithlonrwydd o ganlyniad i waith prosiectau maes Cyngor Effeithiol ac Effeithlon, ond mae'n gyn amserol i weld effaith y gwaith ar wasanaethau i bobl Gwynedd.
- 3.4 Cwblhawyd pedwar prosiect maes Cynllunio Ariannol yn llwyddiannus.
- 3.5 Perfformiad a rhagolygon cadarnhaol gyda mesurau maes yr Amgylchedd.

4.0 Prosiectau'r Cynllun Strategol

Cyflwynir isod adroddiadau cynnydd cryno ar brosiectau'r Cynllun Strategol 2015/16 yn y meysydd Plant a Phobl Ifanc, Y Gymraeg, Cyngor Effeithiol ac Effeithlon a Chynllunio Ariannol. Mae'r prosiectau ym mherchnogaeth yr aelodau Cabinet unigol, a dylid nodi nad oes prosiectau ym maes Amgylchedd (sydd ym mhorthffolio'r Cyngorwyr John Wynn Jones a Dafydd Meurig).

Er mwyn atgoffa aelodau, mae geiriad y cynllun strategol wedi ei nodi.

4.1 Plant a Phobl Ifanc

Y Cynghorydd Gareth Thomas

P1 Strategaeth Ansawdd Addysg

Pwrpas y prosiect hwn yw paratoi a datblygu Strategaeth Ansawdd Addysg fydd yn sail i wella a chysoni safonau addysg ar draws y Sir.

Mae Strategaeth Ansawdd Addysg wedi ei llunio, a bydd yn sail i wella a chysoni safonau addysg ar draws y Sir.

Mae'r seiliau sydd wedi'u gosod yn y strategaeth wedi dechrau dwyn ffrwyth yn barod, ac yn dangos y gwir effaith ar ganlyniadau plant a phobl ifanc. Nodir y prif gryfderau isod:

- Mae'r mesurau perfformiad allweddol ym mhob cyfnod allweddol yn gwella erbyn hyn, ac yn cymharu'n ffafriol ag awdurdodau lleol tebyg. Mae'n dangos cynnydd blynyddol ers 2013 ar gyfer Gwynedd.

Canran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r Dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS)

Nifer disgyblion yn y cohort Haf 2015 – 1,246

	2013	2014	2015
Gwynedd	82.8%	85.2%	86.8%
Cymru	83.0%	85.2%	86.8%
Safle Cenedlaethol (1=gorau)	13	10	10

- Canran o ddisgyblion sydd wedi cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2:

Nifer disgyblion yn y cohort Haf 2015 – 1,141

	2013	2014	2015
Gwynedd	86.6%	86.0%	89.5%
Cymru	84.3%	86.1%	87.7%
Safle Cenedlaethol (1=gorau)	6	14	6

- Mae bron pob disgybl yn gadael yr ysgol gydag achrediad ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4:

Nifer disgyblion 15 oed Haf 2015 – 1,310.

Perfformiad disgyblion 15 oed mewn cymhariaeth â Chymru ac awdurdodau eraill:

Gwynedd	2015	
	%	Safle
Trothwy Lefel 1	97.9	1
Trothwy Lefel 2	88.9	5
Trothwy Lefel 2+	63.3	5
Dangosydd Pynciau Craidd	62.4	3
Sgôr Pwyntiau Cyfartalog wedi'i gapio	362.0	1
Sgôr Pwyntiau Cyfartalog	617.2	1

Trothwy Lefel 1: Dysgu sydd gyfwerth a phump TGAU graddau D i G.
Trothwy Lefel 2: Dysgu sy'n gyfwerth a phump TGAU graddau A* i C.
Trothwy Lefel 2+: Dysgu sy'n gyfwerth a phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg
Dangosydd Pynciau Craidd: % dysgwyr sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg neu Gymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth gyda'i gilydd
Sgôr Pwyntiau Cyfartalog wedi'i gapio: cyfartaledd pwyntiau'r wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio
Sgôr Pwyntiau Cyfartalog: cyfartaledd pwyntiau Saesneg neu Gymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth

Manylir ar rai o'r canlyniadau eraill yn rhan 3 o'r adroddiad, ac yn **Atodiad 1 – Mesurau**.

P2 Gwella arweinyddiaeth a rheolaeth

Pwrpas y prosiect hwn yw gwella amodau arweinyddiaeth er mwyn codi safonau.

Hyd yma, mae'r prosiect hwn yn perfformio yn unol â'r disgwyl.

Mae adroddiad wedi'i gomisiynu i faes arweinyddiaeth yng Ngwynedd, ac mae ffocws penodol ar arweinyddiaeth yng nghynlluniau busnes yr Adran Addysg a GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru). Mae hyfforddiant gorfodol ym meysydd arwain a rheoli, ac addysgu ac asesu wedi'i ddarparu ar gyfer penaethiaid, gan osod gwaelodlin o ran disgwyliadau ar gyfer y flwyddyn addysgol bresennol a thu hwnt. Yn ogystal, mae'r awdurdod wedi ymyrryd yn effeithiol mewn tair ysgol oedd yn peri pryder o ran arweinyddiaeth. Mae un o'r ysgolion hynny wedi cael ei thynnu oddi ar y rhestr ysgolion sydd mewn mesurau arbennig gan Estyn.

Yn ystod y flwyddyn, cyflwynwyd ystod o weithgareddau i gefnogi a datblygu arweinwyr. Rhoddir blas o rai o'r sesiynau hynny isod:

- **Uwch Arweinyddiaeth**
 - ***Datblygu Penaethiaid Profiadol:*** rhaglen unigryw dros bedwar diwrnod ar gyfer grŵp targed bychan o benaethiaid llwyddiannus er mwyn eu symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu gyrfa. Mynychodd bedwar pennaeth o Wynedd yr hyfforddiant.
 - ***Gweithdai i wella ansawdd hunan arfarnu a chynllunio gwelliant:*** Bu GwE yn cydweithio gyda'r Adran i ddarparu gweithdai arweiniol ym maes hunan-arfarnu a chynllunio gwelliant i gynrychiolaeth o Uwch Dim Rheoli pob ysgol. Roedd y sesiynau yn caniatáu mynediad i gyflwyniadau ar yr arferion gorau yn lleol a deunyddiau enghreifftiol i gefnogi gweithredu yn ôl yn yr ysgol. Mae tystiolaeth glir o'r ymweliadau monitro bod yr arweiniad wedi miniogi gweithredu ar draws sawl ysgol;
 - ***Gweithdai 'Estyn' barod:*** Mae'r Adran Addysg hefyd wedi bod yn cydweithio gyda GwE i ddarparu gweithdai i gynorthwyo arweinwyr i gael eu hysgolion yn barod ar gyfer arolygiadau Estyn. Mae gwelliannau sylweddol i'w gweld ym mhroffil 'categori dilyniant' yr ysgolion sydd wedi cael eu harolygu ers hynny.

Mae trafodaethau cychwynnol gyda GwE yn awgrymu y byddwn yn gweld gwelliannau pellach eleni a chynnydd yn yr ysgolion fydd yn derbyn dyfarniad B neu uwch ar gyfer eu gallu i wella. Mae'r gwaith o arfarnu ansawdd arweinyddiaeth ar draws ysgolion Gwynedd yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a bydd dyfarniad interim ar gael cyn diwedd Tymor yr Haf 2016 a dyfarniad terfynol yn fuan yn Nhymor yr Hydref 2016.

Rhaglen creu rhwydwaith o ysgolion hyfyw i'r dyfodol
Pwrpas y rhaglen yma yw datblygu rhwydwaith o ysgolion hyfyw i'r dyfodol. Bydd cyflawni'r rhaglen yn creu gwell amodau i ddatblygu arweinyddiaeth, cynyddu a chysoni safonau addysg, a gwella profiadau i blant a phobl ifanc.

P3 Ysgol Bro Llifon

Pwrpas y prosiect yma yw darparu ysgol newydd yn sgil penderfyniad y Cyngor i gau ysgolion y Groeslon, Carmel a Bron y Foel.

Agorwyd yr ysgol newydd ym mis Medi 2015. Yn dilyn agoriad yr ysgol, gellir nodi'r isod fel canlyniadau cadarnhaol:

- Bellach, darperir mwy o gyfleoedd cyfartal i bob plentyn yn yr ardal er mwyn iddynt gael eu haddysgu mewn grwpiau o faint rhesymol
- Mae'r datblygiad wedi arwain at well amgylchedd i sicrhau arweinyddiaeth a rheolaeth gadarn
- Lleihad amrediad cost y pen ar gyfer darparu addysg yn yr ardal a lleihad llefydd gweigion gan gynyddu effeithlonrwydd.

P4 Hafod Lon Newydd

Pwrpas y prosiect yma yw darparu ysgol arbennig i ddisgyblion Meirionnydd a Dwyfor a hynny yn wyneb y penderfyniad i gau'r Ysgol Hafod Lon bresennol.

Mae cynnydd da wedi'i wneud gyda'r gwaith adeiladu, ac mae'n parhau yn fwriad i agor yn nhymor yr hydref 2016. Mae'r gwaith o gytuno strwythur staffio'r ysgol newydd wedi ei gyflawni gyda'r bwriad o gyflawni trefn penodi athrawon ychwanegol i'r rhai presennol yn fuan ar ôl gwyliau'r Sulgwyn, ac unrhyw gymorthyddion a staff ategol cyn gwyliau'r haf.

P5 Dalgylch Y Gader

Pwrpas y prosiect hwn yw sefydlu un Ysgol Ddalgylchol cyfrwng Cymraeg 3-16 oed yn nalgylch Ysgol y Gader.

Disgwylir bydd gwaith adeiladu wedi'i gwblhau er mwyn i'r ysgol newydd agor ym Medi 2017. Mae pennaeth newydd wedi cychwyn yn ei swydd ers Pasg 2016. Mae caniatâd cynllunio wedi ei gymeradwyo ar gyfer y gwaith ar safle Ysgol Gynradd Dolgellau.

P6 Glancegin

Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau buddsoddiad i ddarparu adeilad newydd i Ysgol Glancegin sydd wedi ei lleoli ym Maesgeirchen.

Mae'r achos busnes wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, felly mae'r £5.11 miliwn yn ei le ar gyfer adeilad newydd Ysgol Glancegin. Mae'r contractwr bellach wedi ei benodi ac wedi cychwyn ar y gwaith adeiladu, gyda'r ysgol newydd yn barod erbyn dechrau tymor Medi 2017. Mae'r gwaith yn symud ymlaen yn unol â'r amserlen.

P7 Dalgylch Y Berwyn

Pwrpas y prosiect yma yw creu Campws Dysgu Gydol Oes Cyfrwng Cymraeg ar safle presennol Ysgol y Berwyn.

Mae cam olaf yr achos busnes wedi ei gymeradwyo gan y Cabinet a Llywodraeth Cymru. Mae'r holl brosesau statudol wedi'u cwblhau yn unol â'r amserlen a osodwyd. Mae'r broses cynllunio yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, a chyflwynwyd cais i Bwyllgor Parc Cenedlaethol Eryri ym mis Ebrill.

Disgwylir bydd y gwaith adeiladu yn cael ei gwblhau ar amser er mwyn i'r ysgol newydd agor ym Medi 2018.

P8 Trawsnewid y ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad

Pwrpas y prosiect yma fydd trawsnewid y gwasanaeth ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r strategaeth wedi ei chytuno a'i chymeradwyo ac mae ffurf a strwythur y gwasanaeth newydd wedi ei lunio ar ffurf drafft.

Yn ystod y flwyddyn, mae sawl newid i'r ddarpariaeth wedi digwydd yn cynnwys:

- Peidio â chynnig y gefnogaeth 3* o'r newydd ers 1 Medi, 2015. Mae cefnogaeth 3* yn ddarpariaeth ychwanegol i ddisgyblion sydd fel arfer ag anhawsterau sylweddol, ond heb fod o fewn y canllawiau statudol. Yn yr ysgolion lle mae'r gyllideb wedi'i datganoli, mae'r gyllideb eisoes wedi rhewi ers tua 5 mlynedd. Mae gofyn i ysgolion fod yn fwy hyblyg o ran y defnydd o'u cyllideb Anghenion Dysgu Ychwanegol interim.
- Cynnal hyfforddiant ar gyfer Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol pob ysgol ar y defnydd o ddulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, yn ogystal â chreu pecyn e-ddysgu cynhwysfawr i gefnogi hyn.
- Adolygu'r defnydd o'r meini prawf mynediad a gadael y Gwasanaeth Gwybyddiaeth a Dysgu (llefaredd a rhifedd) sydd yn golygu ein bod yn gallu targedu'r plant cywir yn well.
- Peilota'r defnydd o gymorthyddion ymestyn allan ar gyfer cynnig cefnogaeth i'r plant sy'n gadael y canolfannau anhwylder iaith yn hytrach na chymorthyddion unigol am nifer penodol o oriau'r wythnos.
- Cychwyn sefydlu'r gwasanaeth cynnal ymddygiad newydd, mewn ymateb i'r diffyg yn y ddarpariaeth.

Mae strwythur gwasanaeth wedi ei lunio ar y cyd ag Ynys Môn sydd yn rhoi darlun clir i'r model darparu i'r dyfodol.

Y Cyngorydd Mair Rowlands

P9 Sicrhau ystod o wasanaethau ataliol ar gyfer grwpiau o blant a phobl ifanc bregus Gwynedd.

Pwrpas y prosiect yw sicrhau trosolwg o'r agenda ataliol yn y Sir, gan weithio yn amlasiantaethol er mwyn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ein hymdrechion ar wneud y pethau cywir yn y lle cywir.

Er mwyn trefnu ein gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliol o amgylch materion penodol sy'n wynebu Gwynedd, mae'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd wedi cynnal asesiad o anghenion teuluoedd trwy ddefnyddio data lleol. Mae'r asesiad yma wedi adnabod bylchau ac anghenion penodol fel rhai sydd angen eu targedu wrth gynllunio pecynnau/ rhaglenni ataliol i'r dyfodol a gwella'r ddarpariaeth sy'n cael ei chynnig i'r person ifanc a'r teulu. Mae'r bylchau yn cynnwys oediad llefaredd ac iaith, cefnogaeth iechyd meddwl lefel isel, ac anghenion rhiantu.

Yn ychwanegol i'r bylchau, mae'r asesiad wedi edrych ar yr arferion da sydd wedi codi o raglenni ataliol lle byddai o fudd i ni gryfhau ein darpariaeth. Awgrymir y canlynol fel egwyddorion creiddiol a chyfeiriad i'r gwaith:

- Cryfhau ac ymestyn model Tîm o Amgylch y Teulu (Tîm Gyda'n Gilydd) fel ffordd o weithio effeithiol ac ystyried y model yma ar gyfer rhaglenni i'r dyfodol
- Gweithio gyda Theulu cyfan, yn hytrach nag un aelod
- Adnabod problemau yn gynnar drwy sicrhau bod y systemau cywir mewn lle rhwng gwahanol asiantaethau
- Gweithiwr allweddol sef gweithiwr gall y teulu adeiladu perthynas ac ymddiried ynddo.

Fel cam nesaf i'r gwaith, bydd yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn llunio rhaglen waith glir fydd yn canolbwyntio ar yr egwyddorion uchod. Bydd y rhaglen waith yma yn gosod cyfeiriad i'r gwaith.

4.2 Diogelu

Y Cyngorydd Mair Rowlands

D1 Sicrhau perchnogaeth Cyngor cyfan i'r maes diogelu

Pwrpas y prosiect yma yw sicrhau fod perchnogaeth gorfforaethol i'r agenda diogelu a bod gweithredu yn effeithiol o ran diogelu plant ac oedolion bregus Gwynedd.

Mae'r rhaglen waith wedi'i chyflwyno i'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion ym mis Medi ac ers hynny mae'r Grŵp Gweithredol wedi bod yn gweithredu ar y rhaglen waith honno. Mae'r yn symud yn ei flaen ond, fel

llawer i brosiect, mae'n debyg mai'r elfen o fesur effaith sydd fwyaf heriol. Er mwyn ceisio ymateb i hyn mae Grŵp Tasg wedi ei sefydlu ar gyfer creu trefn i fesur effaith mabwysiadau a chydymffurfio gyda'r polisi, y gwaith o godi ymwybyddiaeth ac effaith yr hyfforddiant ar ddiogelu.

Mae enghreifftiau wedi eu casglu gan y Rheolwyr Dynodedig o weithredu gan staff rheng flaen yn sgil gwell dealltwriaeth o ddiogelu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r enghreifftiau yn dangos gallu'r gweithlu i adnabod materion diogelu a'u parodrwydd wedyn i weithredu. Mewn ambell i achos mae staff rheng flaen wedi gwneud cyfeiriad diogelu sydd wedi arwain at weithredu pellach. Cynhaliwyd Awdit Ymwybyddiaeth yn ystod y flwyddyn ac mae'r canlyniadau yn dangos fod cynnydd wedi bod yn lefelau ymwybyddiaeth staff ar draws y cyngor o ran materion diogelu. Yn ogystal mae'r niferoedd sy'n derbyn y polisi ac yn cwblhau'r modiwlau e-ddysgu yn golygu fod y neges yn cyrraedd mwy o staff ac ar draws gwasanaethau.

D2 Diogelu Plant a Phobl Ifanc

Pwrpas y prosiect yma yw gwella yn barhaus y trefniadau a diwylliant diogelu yn y maes plant a phobl ifanc.

- i) Rhan gyntaf y prosiect hwn yw maes Ecsploetio Plant yn Rhywiol, a chyflwynwyd cynllun gweithredu rhanbarthol y Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol i'r Panel Strategol Diogelu. Bydd y Grŵp Gweithredol yn ystyried y goblygiadau corfforaethol sydd yn deillio o'r rhaglen waith. Rhagwelir y bydd angen codi ymwybyddiaeth a llunio rhaglen waith leol i ymateb a sicrhau cydymffurfiaeth â'r disgwyliadau. Adroddwyd yn yr adroddiad trosolwg perfformiad a gyflwynwyd ar 3 Mai 2016 ein bod yn ystyried cydweithio gydag arbenigwraig yn y maes yma (Dr Helen Beckett). Nid oes cadarnhad eto pryd fydd hyn yn digwydd.

Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd er mwyn sicrhau ein bod ni fel Cyngor, gymaint ag sydd bosib, yn deall y galw am wasanaeth, a thueddiadau Ecsploetio Plant yn Rhywiol yng Ngwynedd. Ar hyn o bryd mae'n anodd nodi beth yw'r effaith ar blant a phobl ifanc wedi bod gan ei bod yn ddyddiau cynnar o weithredu'r strategaeth.

- ii) Ail ran y prosiect yma yw'r gwaith o gryfhau gweithdrefnau a diwylliant diogelu o fewn y maes Addysg. Adroddwyd yn yr adroddiad ar 3 Mai 2016 fod rhaglen waith glir wedi'i llunio ac yn cael ei gweithredu. Er mwyn sicrhau fod yr ysgolion yn gwbl glir o'u cyfrifoldebau a bod gweithdrefnau a diwylliant diogelu cadarn yn ysgolion Gwynedd, penodwyd Swyddog Diogelu i'r Adran Addysg, ac mae'r swyddog yn weithredol ers Medi 2015.

Nodir isod y meysydd sydd wedi eu hadnabod fel blaenoriaeth:

- Adolygu Hyfforddiant Amddiffyn Plant Lefel 1 a Lefel 2

- Adolygu'r polisïau enghreifftiol sydd ar gael i ysgolion yn y maes diogelu, amddiffyn plant ac ymyrraeth gorfforol yng nghyd-destun datblygiadau cenedlaethol a chanllawiau' cadw'r dysgwyr yn ddiogel
- Sicrhau fod pob Corff Llywodraethol wedi mabwysiadu'r polisïau perthnasol
- Bob ysgol i dderbyn ymweliad Diogelu cyn arolwg
- Cytuno ar un strategaeth sirol
- Cytuno ar bolisi sirol enghreifftiol
- Codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar 'Ecsploetio Plant yn Rhywiol' (CSE)
- Codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant radicaleiddio
- Codi ymwybyddiaeth Ymddygiad Rhywiol Niweidiol (HSB).

Mae'n gyn amserol i fesur effaith a llwyddiant y gweithgarwch uchod ond, erbyn cyfarfod nesaf y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus, bydd arweinydd y prosiect yn ceisio cynnig trosolwg o swmp y gwaith, ac fel rhan o hynny disgwylir amlygu effaith.

D3 Diogelu oedolion bregus Pwrpas y prosiect yma yw anelu i wella yn barhaus y trefniadau a diwylliant diogel o fewn y maes oedolion.

Gyda swyddi Uwch Reolaeth yr adran bellach wedi eu llenwi mae'r Adran mewn sefyllfa ble mae modd rhoi mwy o sylw i weithredu'n llawn y prosiect dan sylw. Bydd Ceryl Davies, Uwch Reolwr Anghenion Dwys yn symud y rhaglen waith yn ei blaen a disgwylir gweld cynnydd sylweddol yn ystod y misoedd nesaf. Er bod nifer o'r argymhellion sydd ynghlwm â'r rhaglen waith wedi cael eu gweithredu, mae'r Aelod Cabinet yn awyddus i gael trefn adrodd glir sydd yn sicrhau trosolwg o'r gwaith.

Mae gweithredu rhai o'r argymhellion sydd ynghlwm â'r prosiect hwn heb os yn cael effaith uniongyrchol ar fywydau pobl. e.e. datblygu taflenni gwybodaeth bwrpasol sydd wedi eu teilwrio i unigolion sydd ag anghenion gwahanol ac felly'n hwyluso mynediad at wasanaethau. Enghraifft arall yw'r gwaith blaenoriaethu a chynyddu capasiti sydd wedi digwydd o ran ymateb i anghenion DoLS (Deprivation of Liberty Safeguards) - sydd yn sicrhau asesiad o hawliau'r unigolyn.

4.3 Y Gymraeg

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn
11 Cymunedau yn hyrwyddo'r Gymraeg

Hyrwyddo'r Gymraeg drwy gefnogi a grymuso pedair cymuned gan gynorthwyo trigolion i gynnal asesiad o sefyllfa'r Gymraeg yn y gymuned er mwyn cryfhau statws a defnydd yr iaith.

Mae'r prosiect wedi cyflawni'r mwyafrif o'r hyn a oedd wedi ei amlinellu ar gyfer y flwyddyn gyda Fframweithiau Gweithredu'n Lleol yn eu lle ar gyfer Porthmadog, Bangor a Dolgellau a chynlluniau ar waith er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y cymunedau. Er na chwblhawyd y Fframwaith yn Nhalysarn llwyddwyd i ymgysylltu â grwpiau sydd ar waith o fewn y gymuned a'r Ysgol Uwchradd leol.

Mae hyn wedi arwain at gynnal ystod eang o weithgareddau o fewn y cymunedau dan sylw er mwyn ceisio cryfhau statws a defnydd o'r iaith a cheir crynodeb o'r rhain isod:

- Dau ddigwyddiad busnes (ym Mhenygroes a Criccieth) i hyrwyddo'r Gymraeg mewn busnes gyda 100% o'r rhai a fynychodd yn mynegi bwriad i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn busnes yn ogystal a gwaith yn Nolgellau i hybu'r £ Gymraeg (gyrhaeddodd 80 dros y gweithgareddau i gyd)
- Un Clwb Hwyl ar ôl ysgol (yn Ysgol Dyffryn Nantlle) dros gyfnod o bum wythnos gyda rhieni yn datgan awydd i weld mwy o ddarpariaeth o'r fath i'r dyfodol
- Un Pnawn Hwyl a Dathlu (yn Nhalysarn) gyda 90 o oedolion, plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol trwy gyfrwng y Gymraeg a arweiniodd at ymrwymiad gan unigolion grwpiau o fewn y gymuned i lunio rhaglen o weithgareddau ar gyfer 2016/17
- Cefnogwyd Pared Dydd Gwyl Ddewi (ym Mhwillheli) gyda dros 400 yn cymryd rhan gan gynyddu ymwybyddiaeth i hunaniaeth Gymreig a'r iaith Gymraeg
- Chwe digwyddiad cerddorol (yng Nghaernarfon, Dolgellau, Dyffryn Ogwen a Pwllheli) gyda 263 yn mynychu gydag ymateb cadarnhaol gan bobl ifanc oedd yn cydnabod bod "Welsh yn boring" o'r blaen gyda nifer o'r digwyddiadau hyn yn cael eu trefnu gan bobl ifanc lleol
- Tri o weithgareddau chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg yn cynnwys Rygbi, Pwl, cynnydd yn yr ymwybyddiaeth iaith yn y cymunedau, yn cynnwys cysylltiadau newydd a ffres
- Cystadleuaeth "Apps" (yng Ngholeg Meirion Dwyfor) i gynllunio apps i hyrwyddo'r Gymraeg
- Dau weithgaredd diwylliannol (yn Nyffryn Ogwen a Dolgellau) gyda 116 yn mynychu Ffug Eisteddfod a dangosiad ffilm Cymraeg
- Wyth digwyddiad cymdeithasol yn Nolgellau a Phwillheli gyda phwyslais ar ymarfer y Gymraeg a chynyddu ymwybyddiaeth am y Gymraeg (157 yn bresennol dros y gweithgareddau i gyd)

Dangosir tystiolaeth isod fod y gwaith wedi cael effaith, gyda:

- Dros 24 o weithgareddau wedi eu cynnal gyda dros 866 o fynychwyr wedi cael profiad cadarnhaol o ddefnyddio'r Gymraeg.

- Rhai gweithgareddau wedi ysgogi unigolion i drefnu eu gweithgareddau eu hunain ac felly mae elfen o dystiolaeth ei fod yn ysgogi mwy o weithgaredd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Er y nodir fod yr unigolion sydd wedi mynychu'r digwyddiadau wedi cael profiad positif trwy gyfrwng y Gymraeg pwysleisir y ffaith mai amser a ddengys os y bydd y gwaith yn arwain at gynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg o fewn y cymunedau dan sylw.

I2 - Y Gymraeg a'r gwasanaethau cyhoeddus

Cynorthwyo sefydliadau cyhoeddus i gynyddu a gwella eu darpariaeth o wasanaethau dwyieithog i drigolion Gwynedd fel eu bod yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn naturiol. Drwy gydweithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol bydd modd gosod safonau cyson ac eglur, a gweithredu ar y cyd ar gynlluniau fydd yn gwella profiad y defnyddiwr.

Mae adroddiadau blaenorol wedi cyfeirio at y ffaith fod rhywfaint o newid cyfeiriad wedi bod yn y prosiect hwn er mwyn sicrhau sylw i hyrwyddo gallu trigolion y Sir i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol pan yn cysylltu hefo cyrff cyhoeddus y Sir. Mae'r Aelod Cabinet wedi nodi rhywfaint o bryder ynghylch cynnydd y prosiect hyn a gyda diflaniad y Bwrdd Gwasanaethau Lleol bu rhywfaint o ansicrwydd ynghylch a fydd y prosiect yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

Fodd bynnag, yn eu cyfarfod olaf ddiwedd mis Ebrill fe benderfynodd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol awgrymu i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (a fydd yn cymryd ei le) y dylid parhau hefo'r blaenoriaethau presennol hyd y bydd yr asesiad a'r cynllun llesiant wedi ei gwblhau. Bydd cyfarfod cyntaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael ei gynnal ar y 17eg o Fehefin a byddwn fel Cyngor yn amlwg yn pwysleisio'r ffaith fod y Cyngor yn credu y dylai'r prosiect barhau yn flaenoriaeth.

Mae holiadur, sy'n seiliedig ar y gwe iaith, wedi ei ddatblygu er mwyn gallu sefydlu gwaelodlin o safbwynt sefydlu beth yw lefelau defnydd o'r iaith o fewn y sefydliadau a mae Cyfoeth Naturiol Cymru a Pharc Cenedlaethol Eryri (ynghyd a'r Cyngor) wedi gwirfoddoli i dreialu'r holiadur.

Os y bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cytuno i flaenoriaethu'r prosiect, y camau nesaf fydd sicrhau enwebiadau ar lefel briodol o fewn pob sefydliad i arwain ar y gwaith ac i gynnal cyfarfod lefel uchel dros yr wythnosau nesaf er mwyn symud y gwaith yn ei flaen a thrafod gosod safonau.

Nid oes dim wedi deillio o'r prosiect eto ond yr amcan tymor canolig yw anelu i wella'r profiad o gysylltu hefo cyrff y sector gyhoeddus yng Ngwynedd trwy gynnig gwasanaethau yn naturiol trwy gyfrwng y Gymraeg heb orfod gofyn amdano.

I3 Pobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol

Sefydlu gwaelodlin a mesur cynnydd yn nefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gyda phobl ifanc.

Erbyn diwedd 2015/16, cytunodd holl ysgolion uwchradd y Sir i gymryd rhan yn y prosiect ac o ganlyniad mae gwaelodlin wedi ei sefydlu o safbwynt defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol ymysg disgyblion Blwyddyn 7. Yn ogystal, mae cyfres o sesiynau i godi ymwybyddiaeth a hyder pobl ifanc yn eu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg wedi eu cynnal mewn meysydd megis chwaraeon a cerdd.

Dengys ymatebion i holiaduron fod y canran o ysgolion cynradd sy'n cynnal neu'n gallu dangos cynnydd yn y defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan blant yn parhau i fod yn dda. Ceir crynodeb o ganlyniadau diweddaraf y Gwe Iaith o fewn yr Ysgolion Cynradd isod:

Cwestiynau holiadur Siarter Iaith	Cynnydd
Dwi'n siarad Cymraeg efo plant yn y dosbarth	2,425 (56.65%)
Dwi'n siarad Cymraeg efo plant ar y coridor ac yn y neuadd ginio	2,142 (50.04%)
Dwi'n siarad Cymraeg ar iard/fuarth yr ysgol	1,750 (40.88%)
Dw i'n gwyllo rhaglenni Cymraeg ar S4C/trwy gyfrwng y We a DVDs Cymraeg	1,642 (38.36%)
Dw i'n gwrando ar gerddoriaeth Cymraeg	2,036 (47.56%)
Pan dw i'n gallu gwneud hynny, dwi'n defnyddio technoleg trwy gyfrwng y Gymraeg e.e 'apps', y We, tecstio a.y.y.b.	2,018 (47.14%)
Dw i'n teimlo'n gyffyrddus / hapus wrth weithio yn y Gymraeg e.e darllen, ysgrifennu	3,308 (77.27%)

Dangosir tystiolaeth isod fod y gwaith wedi cael effaith, gyda:

- Gwaelodlin wedi ei sefydlu ynghylch defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol gan ddisgyblion Blwyddyn 7 pob ysgol uwchradd yn y Sir.

- Mae'r gwaith hefo'r Siarter Iaith Cynradd yn dangos bod dros 2,000 o blant cynradd yn dweud eu bod wedi cynyddu eu defnydd o'r iaith.

14 Awdit o sefyllfa'r Gymraeg yng Nghyngor Gwynedd

i) Ystyried llwyddiant y Cyngor i normaleiddio'r Gymraeg drwy ei adrannau a'r gwasanaethau a ddarperir i drigolion y sir.

ii) Cyflawni gwaith ymchwil er mwyn canfod a chadarnhau i ba raddau y mae'r Cyngor yn mynd gam ymhellach ac yn llwyddo i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg drwy gyfrwng y gwasanaethau rydym yn eu darparu i drigolion y sir.

Mae'r gweithgareddau oedd wedi eu hadnabod ar gyfer y flwyddyn wedi eu cwblhau er bod gwaith pellach yn digwydd er mwyn ceisio cael darlun mor gyflawn â phosibl.

Adroddwyd eisoes y derbyniwyd ymateb gan 172 allan o 259 o reolwyr y Cyngor i'r awdit a gynhaliwyd yn ystod Rhagfyr a Ionawr a a bod dadansoddiad wedi ei wneud. Mae gwaith pellach wedi ei wneud er mwyn chwynu trwy'r rhestr rheolwyr gan dynnu'r rhai sydd heb gyfrifoldeb am staff allan a mynd ar ôl y rhai oedd heb ymateb i'r holiadur gwreiddiol gan roi cyfle iddynt ddod yn ôl erbyn diwedd Mai. Y gobaith wedi gwneud hyn yw y bydd gennym well darlun o'r gwir sefyllfa.

Mae'r gwaith o ddatblygu fframwaith syml sy'n amlinellu beth mae Polisi Iaith Gymraeg y Cyngor yn ei olygu yn ymarferol i wasanaethau yn mynd yn ei flaen.

Nid oes neb wedi cael budd o'r gwaith hyn eto ond maes o law bydd y gwaith yn adnabod bylchau yn ein darpariaeth iaith Gymraeg ac yn ein galluogi i gau'r bylchau hynny.

4.4 Cyngor Effeithiol ac Effeithlon

Y Cyngorydd Dyfrig Siencyn

C3 Ymgysylltu

Pwrpas y prosiect hwn yw gwella ymgysylltu ar draws y Cyngor.

Erbyn diwedd Mawrth 2017, bydd y prosiect yma wedi sicrhau bod Strategaeth Ymgysylltu yn cael ei gweithredu ac yn cynnwys cyfres o weithgareddau i wella ymgysylltu ar draws y Cyngor.

Mae'r holl weithgareddau oedd wedi eu hadnabod ar gyfer y flwyddyn wedi eu cwblhau eisoes. Yn ystod 2015/16 sefydlwyd trefn newydd i gomisiynu gwaith ymgysylltu ynghyd a log canolog o weithgareddau ar draws y Cyngor.

Yn ogystal, mae gwaith wedi digwydd i ymestyn defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol gyda cynnydd o 2,123 yn y nifer o ddilynwyr Trydar (11,702) a chynnydd o 1,576 (5,062) yn y nifer o hoffterau Gweplyfr.

Mae adroddiadau perfformiad blaenorol yn ystod y flwyddyn wedi cyfeirio at waith 'Her Gwynedd' lle y bu i ni ymgysylltu hefo dros 2,000 o bobl ar y rhaglen doriadau. Cynhaliwyd sesiwn hefo'r Grŵp Ymgysylltu (yn cynnwys aelodau o'r Pwyllgorau Craffu) a staff fu ynghlwm â'r sesiynau yn ystod mis Ebrill er mwyn derbyn adborth ac ar y cyfan daethpwyd i'r casgliad fod yr ymarferiad wedi bod yn llwyddiant. Fodd bynnag, nodwyd fod rhywfaint o wersi i'w dysgu ar gyfer y dyfodol a chytunwyd i wneud gwaith pellach er mwyn eu cyfarch.

Mae yna waith hefyd wedi ei gomisiynu yn sgil sylwadau a wnaed yn flaenorol i sicrhau fod gennym drefniadau priodol ar gyfer ymgysylltu gyda phlant a pobl ifanc, lle mae efallai angen ystyried dulliau ychydig yn wahanol i weddill y boblogaeth.

Dangosir tystiolaeth isod fod y gwaith wedi cael effaith, gyda:

- Panel Trigolion – Trefn newydd yn weithredol sy'n galluogi'r Cyngor i fesur bodlonrwydd pobl Gwynedd gydagwasanaethau'r Cyngor ac adnabod pa feysydd gwasanaeth sy'n dylanwadu fwyaf ar ganfyddiadau trigolion.
- Her Gwynedd - Pobl Gwynedd wedi cael cyfle i gyfrannu'n uniongyrchol i'r gwaith o flaenoriaethu gwasanaethau drwy fynychu cyfarfodydd lleol a / neu drwy lenwi holiadur pwrpasol a'r gwaith hyn wedi dylanwadu ar strategaeth ariannol y Cyngor. Bydd cyfle i'w ddefnyddio ymhellach i'r dyfodol a chaniatáu i bobl Gwynedd ddylanwadu ar gyfeiriad ein gwasanaethau. Mae adolygiad o'r gwersi a ddysgwyd eisoes wedi digwydd ar y cyd gyda Craffu er mwyn cryfhau gallu trigolion Gwynedd i ddylanwadu ar faterion i'r dyfodol.

C4 Gweithredu cyfundrefn berfformiad

Pwrpas y prosiect hwn fydd datblygu a gweithredu cyfundrefn berfformiad newydd. Bydd y gyfundrefn yn sicrhau fod timau gwasanaeth yn mesur yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd, a defnyddir y mesurau hynny i wella perfformiad.

Bydd y drefn adrodd ar hynny yn ychwanegu gwerth drwy ddal gwasanaethau yn atebol.

Mae mwyafrif y gweithgareddau ar gyfer y prosiect hyn yn 2015/16 wedi eu cyflawni er bod y gwaith o ddatblygu hyfforddiant modiwl perfformiad yn llithro i 2016/17.

Cynhaliwyd Colegau Rheolwyr Adrannol er mwyn ceisio sicrhau fod unedau gwasanaeth yn mesur yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd ac yn defnyddio'r mesurau i wella. Yn ogystal, cyflwynwyd y drefn adrodd perfformiad Aelodau Cabinet unigol sydd wedi golygu gwell perchnogaeth o'u meysydd a pherfformiad.

Mae gweithredu'r gyfundrefn yn golygu ein bod yn mesur y pethau sy'n bwysig i bobl Gwynedd. Rydym wedi dechrau gwneud gwahaniaeth trwy ganolbwyntio ar wella ein perfformiad yn erbyn y mesurau hyn.

C8 Llywodraethu gwybodaeth

Pwrpas y prosiect hwn yw adolygu ein trefniadau hyfforddi ar gyfer staff sy'n gweithio gyda gwybodaeth bersonol er mwyn sicrhau bod hyfforddiant yn effeithiol a'n bod yn hyderus fod gwybodaeth bersonol pobl Gwynedd yn gwbl ddiogel yn ein dwylo.

Mae'r holl gerrig milltir ar gyfer y prosiect yn 2015/16 wedi eu cyflawni neu ar waith erbyn hyn. Rydym wedi cynnal rhai sesiynau hyfforddi gyda thimau a siarad gyda rheolwyr unigol i gyfleu iddynt beth yw eu cyfrifoldebau yn hyn o beth. Yn ogystal fe gynhaliwyd sesiwn er mwyn codi ymwybyddiaeth y Penaethiaid a'u hatgoffa o'u cyfrifoldebau.

Mae'r Polisi Diogelu Data wedi ei gynnwys fel rhan o'r Ganolfan Bolisi (ar safle mewn rhwyd y Cyngor) sydd wedi ei lansio i'w gweithwyr gan y Cyngor ac mae'r modiwl e-ddysgu wedi ei baratoi a'i gyflwyno i staff dwy adran. Yn ogystal, defnyddir y drefn archwilio mewnol, lle bo modd, fel modd o wirio cydymffurfiaeth gyda'r Polisi Diogelu Data.

Ychydig o fudd sydd wedi deillio o'r prosiect hyd yma ond maes o law disgwylir y bydd trigolion Gwynedd yn elwa o well trefniadau i gadw gwybodaeth bersonol yn gyfrinachol.

Y Cynghorydd Peredur Jenkins

C1 Rhoi Ffordd Gwynedd ar waith

Pwrpas y prosiect hwn fydd yn arwain timau gwasanaeth i adlewyrchu ar eu trefniadau gwaith presennol, i herio a ydynt yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog, ac i ystyried a oes lle i wella.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae capasiti ychwanegol wedi ei sicrhau i weithio ar y prosiect ac erbyn hyn mae saith adolygiad ar y gweill (Cynnal a chadw ymatebol, Digartrefedd, Gwasanaethau Cefnogol, Gofal Cymdeithasol (Alltwen), Cynnal a Chadw wedi ei raglennu, Addysg a Priffyrdd a Bwrdeistrefol).

Mae'r gwaith o ddatblygu rheolwyr a staff i roi pobl Gwynedd yn ganolog yn parhau gyda gwaith wedi ei gynnal ar sail adrannol i gynorthwyo staff i adnabod anghenion defnyddwyr, pwrpasau a mesuriadau eu gwasanaethau a dadansoddi a dehongli'r wybodaeth hynny.

Er mwyn sicrhau dealltwriaeth gyffredin o'r egwyddorion ymysg yr Aelodau Cabinet bydd gwahoddiad iddynt fynychu sesiynau sydd wedi eu trefnu ar gyfer Rheolwyr yn ystod yr wythnosau nesaf i edrych ar beth mae'r egwyddorion yn ei olygu ar lefel ymarferol.

Pwysleisir y ffaith nad yw'r adolygiadau eu hunain yn newid diwylliant. Byddwn yn canolbwyntio ar yr elfen newid ymddygiad gan adnabod

yddygiadau ar gyfer Unedau/unigolion a darparu cyfleon i ddysgu drwy eu profiadau eu hunain yn ystod y misoedd nesaf. Yn ogystal, bydd y Penaethiaid a'r Uwch Reolwyr yn mynychu hyfforddiant gan gwmni Vanguard ar Feddylfryd Systemau.

Gwelir tystiolaeth o effaith y gwaith isod, gyda'r gwaith newid ymddygiad yn parhau i fynd yn ei flaen:

Uned Digartrefedd

- Lleihad yn y nifer o ddiwrnodau cyfartalog y mae yn ei gymryd i roi unigolion digartref mewn llety o 124 diwrnod cyfartalog yn 13/14 i 70 diwrnod yn 15/16.
- Uchafswm diwrnodau y mae'n ei gymryd i roi unigolion digartref mewn llety wedi lleihau o 455 i 200 o ddiwrnodau yn ystod yr un cyfnod.

Uned Eiddo

- Gostyngiad o 19% yn yr amser mae'r cwsmer yn disgwyl i gwblhau gwaith h.y. o 10.1 diwrnod i 8.2 diwrnod.
- Gostyngiad o £7,118 (8.2%) yng nghost cyflawni gwaith trwy ail drefnu gwaith yn fewnol.
- Rhyddhau rhywfaint o amser staff, sydd wedi arwain at £20,000 o arbedion staffio.

•

Uned Gefnogol

- Systemau cofnodi electronig wedi eu datblygu. Bydd yn arbed amser ar waith gweinyddol i staff ar draws y Cyngor.
- Gwella effeithiolrwydd trin data sydd wedi arwain at arbedion effeithiolrwydd gyda tharged o £116,000. Bydd hyn yn lleihau y gofyn am doriadau mewn gwasanaethau i bobl Gwynedd

Iechyd a Gofal

- Mae'r tîm integredig yn Alltwen bellach wedi dangos fod eu ffordd newydd o weithio yn gwneud gwahaniaeth i gleientiaid trwy ganolbwyntio ar yr hyn sydd yn cyfrif iddynt yn hytrach nag yr hyn sydd ar gael. Mae tystiolaeth hefyd fod y gofyn am becynnau gofal wedi lleihau trwy fod yn fwy ystyrlon wrth asesu gofynion unigolion a bydd yr Aelod Cabinet Gofal yn ymhelaethu ar hyn yn ei adroddiad perfformiad ef yn y cylch hwn.

C2 Rhaglen datblygu arweinwyr

Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau fod arweinwyr o fewn Cyngor Gwynedd yn deall egwyddorion Ffordd Gwynedd, eu bod yn ymwybodol o beth sydd angen iddynt hwy ei wneud er mwyn atgyfnerthu egwyddorion Ffordd Gwynedd drwy holl haenau'r sefydliad, a bod yna gyfundrefn yn ei le i sicrhau bod hynny'n digwydd yn gyson.

Mae'r cylch cyntaf o'r drefn gwerthuso newydd wedi ei gwblhau ac mae adborth adeiladol wedi bod i'r drefn oddi wrth aelodau'r Cabinet a'r Grŵp Rheoli a chytundeb wedi ei sicrhau i ymestyn trefniadau tebyg i Uwch Reolwyr yn y Cyngor. Yn ogystal, mae'r ymarferiad 360⁰ (derbyn adborth oddi wrth aelodau o gylch gwaith uniongyrchol gweithiwr) wedi'i gynnal ac mae'r rhan helaethaf o benaethiaid y Cyngor wedi derbyn yr adborth.

Cynhaliwyd sesiwn gweithdy i'r Aelodau Cabinet yn ystod mis Ebrill er mwyn rhoi cyfle iddynt adolygu eu hanghenion datblygol. Derbyniwyd adborth cymysg i'r sesiwn hon gyda rhai o'r Aelodau yn mynegi amheuaeth ynghylch defnyddioldeb y gweithdy ac os oedd yn cwrdd â'r gofynion. O ganlyniad bydd angen ail ystyried addasrwydd darparu sesiynau tebyg ar gyfer gwleidyddion a swyddogion.

Nodir fod adborth gan y Penaethiaid yn awgrymu fod y rhaglen o fudd ond amser a ddengys os bydd yn arwain at well arweinyddion a gwell gwasanaeth i'r cyhoedd.

Mae amheuaeth os yw'r elfen gydag Aelodau'r Cabinet wedi bod yn llwyddiant ac o ganlyniad byddwn yn ail ymweld a'r rhaglen sy'n cael ei gynnisg iddyn nhw gan dderbyn adborth gan yr aelodau.

C5 Ymestyn y defnydd o hunanwasanaeth

Pwrpas y prosiect hwn yw ymestyn y defnydd o hunanwasanaeth i hwyluso mynediad pobl Gwynedd at wasanaethau'r Cyngor ac ar gost is na'r sianeli traddodiadol.

Ychydig o gynnydd sydd wedi bod yn y prosiect hwn o ganlyniad i gwestiwn ynghylch y sylfaen dechnegol i'w defnyddio.

Dros y misoedd diwethaf mae gwaith wedi mynd yn ei flaen i edrych ar yr opsiynau ar gyfer y sylfaen dechnegol gan edrych ar arfer da o fewn Cynghorau eraill. Yn dilyn y gwaith hwn rydym wedi penderfynu symud ymlaen i ddatblygu ein system ein hunain yn hytrach na phrynu system oddi ar y silff.

Mae'r Aelod Cabinet wedi gofyn i'r Arweinydd Prosiect baratoi achos busnes cynhwysfawr gyda'r bwriad o adrodd yn ôl yn ystod mis Medi.

C6 Strategaeth Technoleg Gwybodaeth (TG)

Pwrpas y prosiect hwn yw llunio Strategaeth Technoleg Gwybodaeth fydd yn gosod allan y cyfeiriad am y cyfnod erbyn diwedd Mawrth 2016.

Yn ystod y flwyddyn bu gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu Strategaeth Technoleg Gwybodaeth gan ymgynghori hefo'r Cyfarwyddwyr a'r Penaethiaid ynghyd â charfannau o staff ar y prif faterion sydd angen sylw, sut i gyfarch y materion hynny a'r adnoddau fydd eu hangen ar gyfer gweithredu.

Er y bu rhywfaint o lithriad yn yr amserlen wreiddiol ar gyfer llunio'r strategaeth fe'i mabwysiadwyd yn ffurfiol gan y Cabinet ar 3 Mai 2016, a chytunwyd i ariannu dwy swydd Rheolwr Cyfrif er mwyn cynorthwyo ei gwireddu.

Ar hyn o bryd does neb wedi cael budd o ganlyniad i'r prosiect ond wrth gyflwyno'r Strategaeth bydd yn arwain at well gwasanaethau gan y Cyngor yn ogystal ag arbed arian i wneud gwell defnydd o'r adnoddau sydd gennym i bobl Gwynedd.

C7 System rheoli dogfennau a chofnodion electronig (EDRMS)

Pwrpas y prosiect hwn yw sefydlu system EDRMS o fewn o leiaf pum adran erbyn diwedd 2017, er mwyn sicrhau bod trefniadau rhannu gwybodaeth y Cyngor yn llawer haws ac effeithiol.

Mae'r prosiect wedi cyflawni'r hyn a amlinellwyd ar gyfer y flwyddyn ac erbyn hyn mae system ar gyfer rheoli dogfennau a chofnodion electronig yn ei lle.

Bu i'r rhan fwyaf o staff yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol drosglwyddo i ddefnyddio'r system yn ystod mis Ionawr/Chwefror a bydd yr Adran Economi a Chymuned a'r Tîm Arweinyddiaeth yn trosglwyddo dros yr wythnosau nesaf. Erbyn hyn mae oddeutu 150 o staff yn defnyddio'r system.

Mae'n gynamserol i asesu os oes budd wedi deillio o'r prosiect hyd yma ond o gyflwyno'r system bydd yn arwain at arbedion ariannol ac yn sicrhau fod gwell trefn ar gyfer rheoli dogfennau a chofnodion electroneg.

4.5 Cynllunio Ariannol

Y Cynghorydd Peredur Jenkins

CA1 Gwireddu arbedion

Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau fod trefniadau yn eu lle er mwyn gwireddu'r arbedion effeithlonrwydd o £13.6m sydd eisoes wedi eu cytuno fel rhan o'r gyfundrefn arbedion ynghyd ag unrhyw arbedion pellach a adnabyddir.

Erbyn hyn, mae 90.9% o gynlluniau 2015/16 wedi eu gwireddu. Gyda'r rhan helaethaf o'r gweddill, llithriad i'r flwyddyn ddilynol yn unig a ragwelir. Mae'r sefyllfa felly yn foddhaol, a'r adrannau wedi pontio unrhyw ddiffyg o'r llithriadau heb gymorth corfforaethol. Nodir y bydd her gynyddol wrth weithredu'r toriadau hefyd yn 2016/17.

Fel nodwyd yn yr adroddiad perfformiad diwethaf, roedd sefyllfa'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn dra gwahanol gyda diffyg cyflawni o £750,000 yn cael ei ragweld hefo cynlluniau 2015/16.

Erbyn hyn mae rhaglen waith addasedig wedi cael ei datblygu er mwyn ymateb i'r sefyllfa ac wedi ei chytuno. O ganlyniad i hyn, ac o fod â Thîm

Rheoli sefydlog bellach yn ei le, fe ddylai'r Adran fod mewn gwell sefyllfa i wireddu'r arbedion effeithlonrwydd, a thoriadau sydd wedi eu proffilio yn 2016/17 a 2017/18, yn ychwanegol i'r rhai sydd eto i'w gwireddu ac wedi llithro o gynlluniau 2015/16.

CA2 Cytundeb Canlyniadau

Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau fod y Cyngor yn gallu hawlio'r swm llawn o £1.3m sydd ar gael yn 2014/15 ac 2015/16 am gyflawni canlyniadau sydd wedi eu cytuno gyda'r Llywodraeth.

Yn ystod y flwyddyn paratowyd adroddiad ar berfformiad y Cyngor yn 2014/15 a'i gyflwyno i'r Llywodraeth yn cadarnhau ein bod wedi cyrraedd neu wneud yn well na'r uchelgais a oedd wedi ei osod. O ganlyniad i hyn rydym wedi derbyn taliad o £1.3m.

Mae hyn mae wedi golygu fod y Cyngor wedi gallu osgoi gwneud gwerth £1.3m yn ychwanegol o doriadau.

CA3 Toriadau

Pwrpas y prosiect hwn yw sefydlu y toriadau y gellir eu gwireddu er mwyn cau'r bwlch ariannol fydd ar ôl yn ystod cyfnod y Cynllun Strategol wedi i ni gyflawni'r arbedion effeithlonrwydd.

Cyflawnwyd yr holl weithgareddau oedd wedi eu hadnabod ar gyfer y flwyddyn. Ymysg y gweithgareddau fe adnabuwyd toriadau posibl, cynhaliwyd trafodaethau hefo cynghorwyr ac aelodau staff ynghylch y rheini ac yna gynnal yr ymgynghoriad cyhoeddus 'Her Gwynedd' ar ddiwedd 2015.

Daeth y prosiect hwn i ben ar ddechrau mis Mawrth pan fu i'r Cyngor gymeradwyo cyfres o doriadau gwerth £4.9m yn seiliedig ar ymateb y cyhoedd a busnesau i'r ymgynghoriad 'Her Gwynedd'.

Bydd gweithrediad y toriadau yn cael eu monitro o fewn y drefn gwireddu arbedion o hyn ymlaen.

CA4 Effeithlonrwydd pellach a modelau darparu gwasanaeth

Pwrpas y prosiect yma yw darganfod cynlluniau effeithlonrwydd pellach er mwyn lleihau maint y toriadau fydd eu hangen yn ogystal ag ymchwilio i feysydd lle mae'n bosib newid y model presennol o ddarparu gwasanaeth gan felly wneud arbedion.

Mae'r prosiect yma wedi cyflawni'r hyn a amlinellwyd ar gyfer y flwyddyn gyda'r prosiect yn edrych ar gynlluniau gwerth £8.1m er mwyn cyfarch targed o £7.25m yn y Strategaeth Ariannol. Ceir crynodeb o'r diweddaraf ynghylch tri chynllun sydd wedi bod ar y gweill isod:

Hamdden

Mae'r gwaith o ddatblygu model amgen ar gyfer y maes hamdden yn parhau.

Gofal

Mae'r gwaith ar yr Achos Strategol ar gyfer Model Darparu Amgen yn parhau.

Cludiant

Trafodwyd yr achos amlinellol ar gyfer model amgen ar gyfer darpariaeth cludiant yn ddiweddar a daethpwyd i'r casgliad nad oedd achos ariannol gwerth chweil ar gyfer symud ymlaen gyda'r gwaith. Fodd bynnag, penderfynwyd fod angen edrych ar anghenion cludiant cyhoeddus yn ei gyfanrwydd o bersbectif tudalen lân.

5.0 Mesurau

5.1 Plant a Phobl Ifanc

Y Cynghorydd Gareth Thomas

Gweler copi o holl fesurau'r Adran Addysg yn Atodiad 1.

Mae perfformiad Gwynedd yn gyffredinol dda ar draws y Cyfnodau Allweddol. Mae perfformiad yn dda iawn yng Nghyfnod Allweddol 3 ac yn gryf erbyn diwedd cyfnod allweddol 4 gan fod ar y brig mewn tri allan o'r chwe phrif fesurydd ar lefel Genedlaethol. Yn y sector gynradd, mae perfformiad yn ddau gyfnod allweddol yn cryfhau gyda lle i wella yn bellach, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen. Ar wahân i Gyfnod Allweddol 3, mae lle i gryfhau perfformiad ar draws yr ystod mesurau yn enwedig er mwyn sicrhau bod disgyblion uwch eu gallu yn perfformio'n well.

Rwy'n awyddus i dynnu eich sylw i'r mesurau canlynol:

- **EDU/016b Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd** – Yn ystod y flwyddyn addysgol, bu i bresenoldeb disgyblion o fewn y sector uwchradd gynyddu 0.4% i 94.6%. Mewn cymhariaeth, yn genedlaethol, bu i'r ffigwr gynyddu 0.2% i 93.8%. Mae presenoldeb ysgolion uwchradd Gwynedd wedi codi o'r pedwerydd safle yn 13/14 i gydradd ail uchaf drwy Gymru.
- **DANS06 Canran disgyblion 16 oed sydd yn ennill Dangosydd Pynciau Craidd (Gradd C neu uwch mewn Cymraeg/ Saesneg, Mathemateg a Gwyddionaeth)** – Mae'r ffigwr canran yma wedi codi 9.2% yn ystod y tair blynedd addysgol ddiwethaf ac yn 62.4%. Mae Gwynedd yn y trydydd safle yn Genedlaethol.
- **EDU/017 Canran y disgyblion sy'n ennill trothwy lefel 2+ yn cynnwys gradd A*-C mewn Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg** – Rydym yn perfformio yn y pumed safle yn genedlaethol gyda hwn. Mae'r mesurydd yma wedi gweld cynnydd yn flynyddol ers 2012. Mae'r adran addysg a GwE wedi adnabod

Saesneg a Mathemateg fel meysydd i weithio yn rhanbarthol arnynt, ac mae swydd Swyddog Ymgynghorol Mathemateg wedi'i llenwi (cychwyn ar 1 Mehefin 2016) er mwyn cyfarch anghenion yn lleol.

- **EDU/008a Nifer o waharddiadau parhaol yn ysgolion cynradd yn y flwyddyn academaidd** – Am y tro cyntaf, mae rhai o ysgolion cynradd Gwynedd wedi gwahardd yn barhaol. Mae'r nifer o waharddiadau cyfnod penodol wedi codi yn ogystal i 83. Fe welwyd 21 o ysgolion cynradd yn gwahardd yn ystod y flwyddyn. Gellir dweud mai'r diffyg ddarpariaeth arbenigol yw'r ffactor yn y cynnydd yma. Mewn ymateb i hyn, mae'r adran yn cychwyn darpariaeth unedau arbenigol o fewn ysgolion er mwyn cynnal y disgyblion mwyaf dwys yn ymddygiadol ac yn emosiynol.

Yn Atodiad 2, ceir data arolygiadau ysgolion Gwynedd ers Ionawr 2015. Ers cyflwyno'r data yma yn yr adroddiad diwethaf, mae chwe ysgol gynradd wedi derbyn arolygiadau. Bu i'r ysgolion cynradd yma dderbyn dyfarniad da neu well ar draws y tri cwestiwn allweddol a'r ddwy farn gyffredinol. Roedd un ysgol wedi derbyn barn Rhagorol ar gyfer pob dangosydd ac un arall wedi derbyn rhagoriaeth ar gyfer arweinyddiaeth a'u gallu i wella. Ymhob achos roedd y farn ar gyfer is-ddangosydd Gwella Ansawdd yn dda neu well ac o'r adroddiadau sydd wedi'i cyhoeddi hyd yma, nid oes unrhyw sylw pellach i wella ansawdd na chynllunio gwelliant.

Gellir gweld cysylltiad clir yma gyda gwaith prosiect P2- Gwella Arweinyddiaeth a Rheolaeth sy'n cael effaith cadarnhaol ar wella ansawdd addysg yn y Sir.

Y Cyngorydd Mair Rowlands

Ceir copi o holl fesurau Plant a Chefnogi Teuluoedd, Hamdden ac Ieuencid yn Atodiad 1. Mae'r gwaith o ddatblygu pwrpas a mesurau yn parhau.

Yn gyffredinol, mae'r mesurau yn perfformio yn dda, gyda nifer wedi cynnal a gwella perfformiad o'i gymharu a 2014/15. Nodir rhai o'r rhain isod:

LiesPMG2 – Cynllun llwybr clir wedi ei gytuno ar gyfer plant mewn gofal – Perfformiad yma wedi bod 100% bob blwyddyn ers 2013, ac mae'r ffigwr yma wedi parhau ar gyfer eleni, gyda 97 o bobl ifanc gyda chynllun llwybr mewn lle.

SCC/041(a) – Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant fu'n berthnasol a chanddynt gynlluniau llwybr yn ôl yr angen – Perfformiad yma wedi'i gynnal ar 100% eto eleni. Yn genedlaethol, roedd y ffigwr yma yn 91.2% yn 2014/15. Nid yw ffigyrau cenedlaethol wedi eu cyhoeddi ar gyfer 2015/16 eto, ond mae Gwynedd yn y safle cyntaf ar hyn o bryd.

Diogelu1 – Cyfradd y plant a gafodd eu trafod mewn goruchwyliaeth, lle rhoddwyd ystyriaeth i niwed sylweddol - Wedi cynnal y perfformiad ar 100% eto eleni. Gan fod y gwaith yma wedi gweithio'n dda yn Arfon, mae'n fwriad ymestyn i dimau plant Dwyfor a Meirionnydd yn 2016/17, ac i Derwen (y gwasanaeth sy'n gweithio gyda phlant anabl a'u teuluoedd a'r Tim 16+ar ôl hynny).

Ceir rhai mesurau sydd heb berfformio cystal, ac mae'r Aelod Cabinet yn awyddus i'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd weithio ymhellach i ystyried lle gellir gwella a goresgyn rhwystrau gyda rhai ohonynt:

SCC/025 – Canran yr ymweliadau statudol a phlant sydd wedi derbyn gofal oedd fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn a'i cynhaliwyd yn unol a'r rheoliadau – Perfformiad 2015/16 yn 87% o'i gymharu ag 89% y llynedd. Mae'r adran wedi cadarnhau bod yr ymweliadau wedi digwydd, ond mewn rhai sefyllfaoedd, nid ydynt yn cael eu cofnodi o fewn yr amserlen briodol. Mae'r adran yn ystyried ffordd o sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei gofnodi, ac yn cadw llygad ar hynny

CSP3 – Canran o gynnydd a wnaed gan deuluoedd yn dilyn ymyrraeth Tim o Amgylch y Teulu (ar gyfartaledd) - Mae'r ffigwr yma wedi'i nodi fel 25.3%. Mae'r ganran wedi lleihau oherwydd natur y teuluoedd mae'r tîm yn gweithio gyda hwynt. Mae anghenion y teuluoedd yn llawer mwy cymhleth ac yn uwch yn y continwrm o angen sy'n golygu delio llawer iawn llai gydag achosion ymyrraeth gynnar. Rwyf hefyd wedi gofyn i'r tîm ystyried mesurau eraill i fesur effaith y gwaith yma, fel rwyf eisoes wedi'i nodi wrth drafod prosiect P9 Sicrhau ystod o wasanaethau ataliol ar gyfer grwpiau o blant a phobl ifanc bregus Gwynedd

SCC/024 - Canran y plant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a chanddynt Gynllun Addysg Bersonol o fewn 20 diwrnod ysgol i dderbyn gofal neu ymuno ag ysgol newydd yn ystod y flwyddyn - Mae'r ffigwr yma yn 37.9% o'i gymharu â 82.1% y llynedd.

Bydd rhai o'r mesurau sydd wedi eu hadrodd yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn newid yn sgîl y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, sydd yn weithredol ers 6 Ebrill 2016. Byddwn hefyd yn adrodd ar fesurau newydd o ganlyniad i hyn.

5.2 Cyngor Effeithiol ac Effeithlon

Y Cyngorydd Peredur Jenkins

CG18 Nifer o ddamweiniau RIDDOR

Edrychwyd ar pam fod y niferoedd yn erbyn y mesur hwn wedi lleihau yn sylweddol o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Roedd y nifer o ddamweiniau RIDDOR yn 40 yn 15/16 o'i gymharu â 63 yn 14/15, 75 yn 13/14 a 64 yn 12/13. Mae'r mesur hwn yn adrodd yn unig ar ddamweiniau os yw'n trefniadau ni ar fai neu yn ddiffygiol mewn damwain.

Mae lle i gredu fod gweithgareddau sydd wedi eu cynnal gan y gwasanaeth i dargedu meysydd penodol megis Oedolion, a chymorth sydd wedi ei ddarparu i Adrannau wedi cyfrannu tuag at y lleihad hwn a byddwn yn parhau i gadw golwg ar y sefyllfa.

Gwasanaeth Taliadau Credydwy

CD6.01 Canran yr anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod (ar draws y Cyngor)

Edrychwyd ar berfformiad y mesur hwn (93%) ac eglurwyd bod ffigyrau'r Adran Addysg (ac yn benodol Ysgolion Cynradd) yn effeithio ar berfformiad y mesur. Trafodwyd yr angen i ymateb i'r sefyllfa hyn gan ddal Adrannau yn atebol dros eu perfformiad ac fel cam cyntaf byddaf yn cysylltu hefo'r Aelod Cabinet Addysg gan ofyn iddo roi sylw i'r mater. Byddaf yn parhau i gadw golwg ar y sefyllfa er mwyn penderfynu os oes angen gweithredu ymhellach.

Mesurir canran yr anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod ar gyfer unigolion a busnesau lleol yn 2016/17 hefyd.

Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth

Nodir fod rhywfaint o anghysondeb rhwng y wybodaeth ar gyfer TG01, TG02 a TG05 (Atodiad 1) o'i gymharu â'r wybodaeth sydd wedi ei gyflwyno ynghylch bodlonrwydd adrannau a gwasanaethau a'r Tîm Rheoli Corfforaethol o'r gwasanaeth sy'n codi cwestiynau a ydym yn mesur y pethau iawn er mwyn gwella perfformiad.

O ganlyniad, mae'r Aelod Cabinet wedi gofyn i'r Gwasanaeth ail edrych ar y mesurau gan ofyn iddynt ystyried beth sydd am ddangos neu brofi fod yr Unedau yn cyflawni'r hyn y dylent ei wneud.

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn

Mae gwaith pellach angen ei wneud er mwyn miniogi rhywfaint ar rai o'r mesurau perfformiad ac ni fyddwn yn dechrau mesur nifer ohonynt hyd chwarter cyntaf 2016/17 .

Y Cynghorydd John Wynn Jones

Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol

WMT/009 – Canran y gwastraff trefol a gesglir gan yr Awudurdod Lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei aildddefnyddio, ailgylchu neu ei gompostio.

Mae'r rhagolygon diweddaraf o 58.75% (data i'w ddilysu) yn dangos ein bod yn debygol o gwrdd a'r targed cenedlaethol o 58% ac wedi dangos cynnydd sylweddol o'r 51% yr oeddem yn ei ailgylchu yn 2012/13. Mae'r newid i gasgliadau gwastraff gweddilliol bob 3 wythnos wedi arwain at gynnydd yn y cyfraddau hyn er y byddwn yn pwysleisio na fyddwn yn gweld effaith blwyddyn lawn ar gyfer ardal Arfon hyd 2016/17.

Nodir fod ein gwaith o gyflwyno trefn casgliadau gwastraff gweddilliol bob tair wythnos yn cael ei ystyried fel ymarfer da yn genedlaethol a rydym eisoes wedi darparu cyngor a chymorth i gynghorau eraill sy'n ystyried cyflwyno trefn o'r fath gan gynnwys Conwy, Ynys Môn, Abertawe, Powys, Bedfordshire a Dorset.

PB51 – Canran lefelau ailgylchu / compostio masnachol

Gwelwyd cynnydd o bron i 6% yn y cyfraddau hyn o 35.45% ar ddiwedd 2014/15 i 41.44% (data i'w ddilysu) yn 2015/16. Eto, dylid cymharu hyn gyda'r 27% oedd yn digwydd yn 2012/13. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf daeth deddfwriaeth newydd i rym yng Nghymru sy'n golygu fod masnachwyr yn gorfod cymryd cyfrifoldeb am ddiidoli ac ailgylchu eu gwastraff eu hunain ac mae'r ffaith fod y Cyngor yn darparu gwasanaeth sy'n eu galluogi i gwrdd â'r gofynion hyn wedi bod o fantais.

Adran Ymgynghoriaeth

Ar gyfer yr Adran yma mae un prif fesur wedi ei adnabod sef elw yn erbyn y targed. Mae'r rhagolygon diweddaraf yn awgrymu y bydd diffyg yn y targed net o -£159,640 ar ddiwedd 2015/16. Y prif reswm dros hyn yw bod Uwch Reolwr wedi gadael ei swydd yn ystod y flwyddyn ac o ganlyniad mae gofynion rheolaethol/strategol ychwanegol wedi effeithio ar incwm yr Adran. Er bod llif gwaith ychwanegol wedi ei adnabod er mwyn lliniaru'r golled nid oedd y gwaith wedi ei gyflwyno mewn pryd i fynd i gyfrifon 2015/16.

Mae agweddau o waith yr Uned Rheolaeth Adeiladu a'r Uned Dŵr ac Amgylchedd yn cael effaith uniongyrchol ar drigolion Gwynedd ac erbyn hyn mae mesurau wedi eu datblygu i fesur effaith yr agweddau hyn. Bydd adroddiadau i'r dyfodol yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad y mesurau hyn.

Y Cynghorydd Dafydd Meurig

Eiddo 4 – Canran adeiladau gyda systemau diogelwch priodol mewn lle i alluogi defnyddio'r adeilad i ddarparu gwasanaeth

Mae hwn yn fesur newydd yn dilyn cwblhau'r ymarferiad Ffordd Gwynedd a pwysleisir na fyddwn yn deall y sefyllfa yn iawn hyd nes fydd y cylch cyfan cyntaf o archwiliadau wedi eu cwblhau.

Er bod y gwaith hyd yma wedi darganfod nad oes 'systemau diogelwch priodol' yn eu lle mewn 44% o'r adeiladau sydd wedi eu harchwyllo pwysleisir y ffaith fod mai materion neu broblemau cymharol fychan yw'r rhesymau yn y mwyafrif o achosion ac nid yw'n golygu fod yr adeiladau yn annïogel. Heb gyflwyno'r drefn newydd ni fyddem wedi darganfod y problemau hyd nes i rhywbeth fynd o'i le.

Bydd yr Aelod Cabinet yn parhau i gadw golwg ar y mesur hwn.

GYC 22 - Canran o fusnesau anghydfurfiol sy'n gwerthu nwyddau gyda chyfyngiad oed sydd bellach yn cydymffurfio

Mae'r canran o fusnesau na werthodd nwyddau yn anghyfreithlon (ffigwr yn cynnwys 'test purchase' gan Safonau Masnach (tybaco, cyllyll ayb) yn ogystal â 'test purchase' yr Heddlu (alcohol – siopau trwyddedig yn unig) yn 81%.

Felly, allan o 57 'test purchase' bu i 11 busnes (19%) werthu yn anghyfreithlon cyn unrhyw ymyrraeth gan Safonau Masnach. Ym mhob achos o werthiant o'r fath, mae'r busnes wedyn yn derbyn ymyrraeth/ymweliad er mwyn asesu systemau'r busnes/rhesymau am y gwerthiant a chynnig cyngor ar sut i wella eu sistem ac osgoi gwerthiant yn y dyfodol. Yn dilyn hyn, mae'r busnesau yn cael ail 'test purchase' er mwyn monitro cydymffuriad.

Allan o'r 11 a werthodd yn anghyfreithlon y tro cyntaf, ni werthodd unrhyw un o'r busnesau yn yr ail 'test purchase'.

PAM 9a - Canran o sefydliadau bwyd sydd yn y system sy'n cyrraedd sgôr 4/5 safonau hylendid bwyd.

Nodir fod y canran o sefydliadau yng Ngwynedd sy'n cyrraedd sgôr 4/5 wedi parhau yn gyson dros y tair blynedd diwethaf gan amrywio o 91% yn 2013/14 i 93% yn 2015/16. Dengys fod y cyfartaledd ar gyfer Cymru yn Ebrill/Mai 2016 yn 86%.

6.0 Casgliad

Gwelir cynnydd da ar y prosiectau trawsnewidiol, a thystiolaeth o effaith cadarnhaol ar drigolion Gwynedd yn dod i'r amlwg.

Mae'r pwyslais a roddir gan dimau gwasanaeth y Cyngor ar ddod i wraidd y rhesymau tu nôl i berfformiad eu mesurau yn ogystal â'r gwaith sydd wedi digwydd ar ddatblygu mesurau o'r newydd yn dystiolaeth fod gwasanaethau yn rhoi mwy o bwyslais ar bobl Gwynedd

7.0 Argymhelliad

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

Barn y swyddogion statudol

Y Prif Weithredwr:

Dim i'w ychwanegu i'r adroddiad sydd yn hunan-esboniadol.

